**Rhif: WG53489**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Gwella'r gefnogaeth i blant agored i niwed a'u teuluoedd ledled Cymru

Newidiadau arfaethedig i wella gwasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yng Nghymru, i gefnogi ein gwaith o drawsnewid gofal cymdeithasol plant.

Ionawr 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2026

ISBN Digidol 978-1-80633-951-8

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i wella gwasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yng Nghymru, i gefnogi ein gwaith o drawsnewid gofal cymdeithasol plant.  Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr am rannu eu barn â ni.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn iaith arall.

## Manylion cyswllt

Rhagor o wybodaeth:

Tîm Gwella Canlyniadau i Blant
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: plantsynderbyngofal@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Gwella gwasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas | LLYW.CYMRU

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 4
Gwybodaeth am yr Ymgynghoriad ..... 4
Yr Ymatebion ..... 5
Crynodeb o'r Ymatebion ..... 5
Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu - Newidiadau Rheoliadol Arfaethedig ..... 5
Gwasanaethau cwnsela a gwasanaethau therapiwtig i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu - newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau ..... 11
Cynllunio, Lleoli ac Adolygu Gofal Mabwysiadu - newidiadau rheoleiddio arfaethedig ..... 16
Asesu gofalwyr sy'n berthnasau a chymorth ar gyfer lleoliadau gyda pherthnasau - newidiadau rheoleiddiol arfaethedig ..... 20
Agwedd fwy hyblyg at Gynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion ar gyfer trefniadau gofal gan berthynas ..... 25
Proses fwy effeithiol ac effeithlon o symud gofalwyr maeth o un darparwr gwasanaethau maethu i un arall - newidiadau arfaethedig i reoliadau ..... 28
Cael gafael ar y lwfans maethu uwch (ffi) ..... 31
Y Mecanwaith Adolygu Annibynnol - newidiadau rheoleiddio arfaethedig ..... 34
Cyflwyno Cofrestr Gofalwyr Maeth yng Nghymru ..... 36
Cynllun Cymorth Gwarcheidwaeth Arbennig - newidiadau rheoleiddio arfaethedig ..... 42
Cwestiynau Eraill ..... 45
Y camau nesaf ..... 47
Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ..... 49

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella canlyniadau i blant sy’n agored i niwed a’u teuluoedd ledled Cymru. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'n rhaglen ehangach i drawsnewid gofal cymdeithasol plant, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal, teuluoedd mabwysiadol, a gofalwyr sy'n berthnasau yn effeithiol, yn hygyrch ac yn ymateb i’r angen.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar amrywiaeth o ddiwygiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth a Chodau Ymarfer o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nod y newidiadau hyn yw symleiddio fframweithiau rheoleiddio, gwella prosesau mabwysiadu a maethu, gwella'r gefnogaeth ar gyfer gofal gan berthnasau a threfniadau gwarchodaeth arbennig, ac ystyried dichonoldeb cyflwyno cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth.

## Gwybodaeth am yr Ymgynghoriad

Ar 4 Awst 2025, lansiodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i wella gwasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yng Nghymru. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 27 Hydref 2025 gan ofyn **tri deg saith** o gwestiynau yn ymwneud â'r meysydd allweddol canlynol:

1. **Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu** – cynigion i symleiddio gofynion cofrestru a gwella mynediad at gymorth sy'n gysylltiedig â mabwysiadu.
2. **Gwasanaethau Therapiwtig a Chwnsela i Oedolion** – chwalu'r rhwystrau sy'n atal oedolion rhag cael cwnsela sy'n gysylltiedig â mabwysiadu.
3. **Adolygu a Chynllunio Gofal ar gyfer Mabwysiadu** – cryfhau'r canllawiau yng Nghod Ymarfer Rhan 6.
4. **Gofal gan Berthynas** – cyflwyno fframwaith asesu a phroses adolygu mwy hyblyg ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau.
5. **Trosglwyddo Gofalwyr Maeth** – gwreiddio arferion da mewn deddfwriaeth er mwyn symleiddio'r broses o drosglwyddo o un darparwyr i’r llall.
6. **Lwfans Maethu Uwch** – egluro cymhwysedd ar gyfer gwahanol fathau o ofalwyr maeth.
7. **Mecanwaith Adolygu Annibynnol** – diweddaru rheoliadau i adlewyrchu arferion presennol a chynyddu eglurder.
8. **Cofrestr Gofalwyr Maeth** – ceisio barn pobl am fanteision a heriau cofrestr genedlaethol.
9. **Cynlluniau Cymorth Gwarcheidwaeth Arbennig** – cyflwyno gofyniad statudol i ddefnyddio templedi cynlluniau cymorth yn gyson.

Anfonwyd hysbysiad o'r ymgynghoriad drwy e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid sydd â buddiant yn y cynigion a chyhoeddodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ddechrau'r ymgynghoriad drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

Gallai rhanddeiliaid ymateb drwy ffurflen ar-lein neu lwytho'r ffurflen i lawr a'i dychwelyd drwy e-bost neu drwy'r post. Derbyniwyd pob ymateb, gan gynnwys y rhai lle atebwyd y cwestiynau'n rhannol, a'r rhai a gyflwynwyd mewn fformat gwahanol i'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad.

## Yr Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb ar hugain i'r ymgynghoriad, a dim ond un a gyflwynwyd o'r tu allan i Gymru. O'r rhain, cyflwynwyd pedwar ymateb ar bymtheg ar-lein a naw drwy e-bost. Roedd yr ymatebion yn cynrychioli amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys wyth awdurdod lleol, un bwrdd iechyd lleol a phum sefydliad trydydd sector. Roedd cyfranwyr eraill yn cynnwys tair menter sector preifat neu fenter gymdeithasol, dau gorff cyhoeddus neu gynrychioladol, dwy brifysgol, a dau roddwr gofal. Nid oedd pum ymateb yn nodi sefydliad penodol. Darparwyd un ymateb yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg, tra bod y saith ymateb ar hugain arall yn Saesneg yn unig. Nid oedd pob ymgynghorai wedi rhoi sylw i bob pennod o'r ymgynghoriad.

## Crynodeb o’r Ymatebion

**Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu - Newidiadau Rheoliadol Arfaethedig**

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu gofyniad cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer darparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu, os ydy’r darparwyr hynny'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu dim ond o dan gontract gydag un neu fwy o wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol?**

Cafwyd tri ymateb a’r ddeg i’r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad. O'r rhain, roedd naw ymatebydd o blaid dileu gofyniad cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru, ac roedd pedwar yn gwrthwynebu'r cynnig.

Tynnodd cefnogwyr y cynnig sylw at nifer o fanteision, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd wrth gomisiynu, a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol gael gafael ar amrywiaeth ehangach o ddarparwyr. Fe wnaethant hefyd gyfeirio at y gostyngiad posibl mewn arferion monopolistig, a allai helpu i leihau cost ymyriadau therapiwtig arbenigol. Teimlai llawer y byddai dileu'r gofyniad cofrestru yn chwalu rhwystrau gweinyddol sydd ar hyn o bryd yn atal darparwyr llai, arbenigol neu sy'n ystyriol o drawma rhag cymryd rhan. Yn bwysig, mynegodd yr ymatebwyr hyn hyder yn y mesurau diogelu presennol, gan nodi bod fframweithiau comisiynu awdurdodau lleol eisoes yn cynnwys gwiriadau cadarn a mecanweithiau sicrhau ansawdd. Yn gyffredinol, roeddent yn credu y byddai'r newid yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o gymorth arbenigol, ac yn galluogi ymyriadau mwy personol ac amserol ar gyfer teuluoedd mabwysiadol.

I'r gwrthwyneb, roedd pedwar yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn codi pryderon ynghylch colli’r oruchwyliaeth ac atebolrwydd annibynnol a ddarperir gan gofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru. Roeddent yn ofni y gallai llacio rheoleiddio arwain at safonau anghyson ac ansawdd amrywiol ledled Cymru. I'r ymatebwyr hyn, roedd cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael ei ystyried yn fesur diogelu hanfodol yn hytrach na rhwystr biwrocrataidd, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau gofal diogel, cyson o ansawdd uchel.

Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y rhai oedd o blaid y cynnig, yn awgrymu cael dull gweithredu cytbwys. Roeddent yn argymell datblygu canllawiau neu restrau gwirio clir i helpu gwasanaethau mabwysiadu i ddewis darparwyr priodol, gan gynnal ffocws cryf ar sicrhau ansawdd, cynllunio gofal, a nodi anghenion cymorth yn gynnar. Awgrymwyd atgyfnerthu canllawiau arfer da a fframweithiau statudol hefyd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a lleihau dryswch.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod y gefnogaeth eang i ddileu gofyniad cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru mewn achosion lle mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu'n cael eu darparu o dan gontract gyda gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn unig. Mae'r adborth yn awgrymu y gallai newid o'r fath ddatgloi mwy o hyblygrwydd wrth gomisiynu a gwella mynediad at gymorth arbenigol, yn enwedig gan ddarparwyr llai neu ddarparwyr sy'n ystyriol o drawma.

Rydym hefyd yn cydnabod yr hyder a fynegwyd gan lawer o ymatebwyr yn y mesurau diogelu sydd eisoes wedi'u gwreiddio yn fframweithiau comisiynu awdurdodau lleol. Ystyrir bod y mecanweithiau hyn yn effeithiol o ran sicrhau ansawdd ac atebolrwydd, a chytunwn eu bod yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddiogelu buddiannau teuluoedd mabwysiadol.

Ar yr un pryd, rydym yn cymryd y pryderon a godwyd ynglŷn â'r posibilrwydd o golli goruchwyliaeth annibynnol a'r risg o safonau anghyson o ddifrif. Rydym yn deall y gwerth a roddir ar gofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru fel ffordd o gynnal tryloywder ac ansawdd ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru’n bwrw ymlaen â dull gweithredu sy'n cydbwyso hyblygrwydd â sicrwydd. Byddwn yn rhoi mesurau ar waith i symleiddio gofynion rheoleiddio lle bo hynny'n briodol, gan gynnal mesurau diogelu hanfodol ar yr un pryd. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cryfhau'r gefnogaeth i wasanaethau mabwysiadu wneud penderfyniadau gwybodus am ddewis darparwyr a chynnal safonau gofal uchel. Bydd y camau hyn yn cael eu siapio drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn ymateb i anghenion teuluoedd mabwysiadol.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n meddwl bod y gwiriadau a ddarperir drwy drefniadau comisiynu yn ddigonol i osgoi gostyngiad mewn safonau?**

O'r pymtheg ymateb a gafwyd i'r cwestiwn, cymysg oedd y farn. Mynegodd saith ymatebydd hyder yn y prosesau presennol, gan awgrymu bod y gwiriadau presennol yn ddigonol i gynnal ansawdd y gwasanaeth. Roedd pum ymatebydd yn anghytuno, gan fynegi pryderon ynghylch bylchau mewn goruchwyliaeth a'r posibilrwydd y byddai safonau'n anghyson ar draws rhanbarthau. Nid oedd y pedwar ymateb arall wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol ond roeddent yn cynnig myfyrdodau a phrofiadau defnyddiol a gyfrannodd at y drafodaeth ehangach. Nid oedd tri ymatebydd yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ond yn hytrach roeddent yn cynnig awgrymiadau adeiladol i gefnogi gweithredu effeithiol.

Rhybuddiodd rhai ymatebwyr y gallai dibynnu'n llwyr ar gomisiynu lleol arwain at safonau tameidiog heb oruchwyliaeth corff rheoleiddio canolog fel Arolygiaeth Gofal Cymru. Roeddent yn tynnu sylw at risgiau fel monitro anghyson, gwrthdaro rhwng buddiannau, ac ansawdd gofal amrywiol. Roedd eraill, er eu bod yn cefnogi trefniadau comisiynu, yn pwysleisio pwysigrwydd prosesau fetio cadarn, gan gynnwys gwiriadau DBS, cymwysterau, geirdaon, a defnyddio rhestrau gwirio safonol. Roedd cynnal rhestrau darparwyr a ffafrir a chynnal adolygiadau rheolaidd hefyd yn cael eu hystyried yn allweddol i sicrhau ansawdd.

Rhaoi o'r awgrymiadau i gryfhau cysondeb oedd canoli gwybodaeth am ddarparwyr drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, annog archwilio ar y cyd ar draws rhanbarthau, a hyrwyddo trafodaethau rheolaidd rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau mabwysiadu. Ystyriwyd bod y dulliau hyn yn ffyrdd o leihau amrywioldeb a chefnogi parhad gofal. Nododd rhai ymatebwyr ganlyniadau cadarnhaol yn sgil comisiynu hefyd, fel gwell mynediad at wasanaethau therapiwtig a chyd-fynd â chanllawiau Ofsted, tra bod eraill yn rhannu profiadau personol a oedd yn tanlinellu pwysigrwydd monitro uniongyrchol a chymorth hirdymor.

Yn gyffredinol, mae'r pymtheg ymateb yn adlewyrchu hyder a phwyll ynghylch digonolrwydd trefniadau comisiynu, gan gyfeirio at yr angen i ystyried ymhellach sut y gellir cryfhau cysondeb a sicrhau ansawdd ledled Cymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r amrywiaeth o safbwyntiau a rannwyd mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch digonolrwydd gwiriadau mewn trefniadau comisiynu. Mae'r adborth yn adlewyrchu hyder yn y prosesau lleol presennol a chydnabyddiaeth o'r angen i sicrhau cysondeb ac ansawdd ledled Cymru.

Rydym yn cydnabod y gwerth a roddir ar fframweithiau comisiynu a'r rôl y maent yn ei chwarae o ran galluogi mynediad at gymorth arbenigol. Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd ynghylch amrywiadau posibl mewn safonau a goruchwyliaeth. Mae'r wybodaeth hon yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal dull cytbwys - un sy'n cefnogi hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau ar yr un pryd â sicrhau mesurau diogelu cadarn a chyson.

Yn sgil yr adborth, byddwn yn ystyried y ffordd orau o gefnogi gwasanaethau mabwysiadu i gryfhau arferion comisiynu. Mae hyn yn cynnwys edrych ar gyfleoedd i gydweithio mwy, rhannu gwybodaeth yn well, a disgwyliadau cliriach o ran fetio a monitro darparwyr. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod trefniadau comisiynu'n parhau i ddarparu cymorth diogel a theg o ansawdd uchel i deuluoedd mabwysiadol ledled Cymru.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n meddwl y bydd y newid hwn yn cynyddu nifer y darparwyr sy'n fodlon darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu i blant a theuluoedd ac felly'n gwella mynediad atynt?**

Datgelodd yr ymatebion agwedd gadarnhaol ar y cyfan ymysg rhanddeiliaid, gyda llawer yn mynegi hyder y gallai'r newid arfaethedig annog mwy o ddarparwyr i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu. O'r deuddeg ymateb a gafwyd, roedd naw ymatebydd yn cytuno y byddai'r newid yn debygol o gynyddu cyfranogiad darparwyr a gwella mynediad at wasanaethau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion cefnogol hyn yn awgrymu y gallai fframwaith mwy cynhwysol neu hyblyg leihau'r rhwystrau rhag mynediad a'i gwneud yn haws i sefydliadau, yn enwedig y rheini yn y sectorau elusennol, gymryd rhan.  Ystyriwyd bod hyn yn gam tuag at ymgysylltu'n ehangach â'r sector a rhoi gwell cefnogaeth i blant a theuluoedd.

Fodd bynnag, roedd tri ymatebydd yn anghytuno, gan godi pryderon ynghylch a fyddai'r newid wir yn cymell darparwyr neu a fyddai perygl o ychwanegu cymhlethdod heb adnoddau neu eglurder digonol. Roedd y pryderon hyn yn tynnu sylw at yr angen am gyfathrebu cliriach ynghylch sut byddai'r newid yn cael ei roi ar waith a'i gefnogi'n ymarferol.

Er bod y safbwyntiau'n amrywio, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at optimistiaeth o ran ehangu cymorth mabwysiadu a galw clir am fwy o eglurder a manylion ymarferol ynglŷn â sut byddai'r newid arfaethedig yn cael ei gyflawni.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r adborth adeiladol a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac mae'r gefnogaeth eang i'r newid arfaethedig yn galonogol. Mae'r ymatebion wedi atgyfnerthu pwysigrwydd creu fframwaith sy'n gynhwysol ac yn ymarferol, gan alluogi ystod ehangach o sefydliadau i gyfrannu at gymorth mabwysiadu.  Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd o ran rhoi’r newid ar waith ac eglurder a byddwn yn ystyried y rhain wrth i ni fireinio'r polisi. Bydd rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei flaenoriaethu i sicrhau bod dealltwriaeth dda o’r dull terfynol, bod ganddo adnoddau priodol, a'i fod yn ymateb i anghenion plant a theuluoedd. Ein nod o hyd yw cryfhau'r dirwedd cymorth mabwysiadu a sicrhau mynediad teg at wasanaethau o ansawdd uchel ledled Cymru.

**Cwestiwn 4: Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fanteision) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau eu cael ar wahanol sefydliadau neu sectorau ym maes gofal cymdeithasol?**

Cafwyd deuddeg ymateb, a oedd yn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau. Er bod y safbwyntiau'n amrywio, roedd y naws gyffredinol yn bwyllog optimistaidd. Roedd wyth ymatebydd yn cydnabod manteision posibl dileu'r gofyniad am gofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer darparwyr sy'n gweithio'n gyfan gwbl o dan gontractau awdurdodau lleol. Teimlai llawer y gallai hyn agor y farchnad i ystod ehangach o ddarparwyr, gan gynnwys sefydliadau llai ac ymarferwyr unigol, a allai yn eu tro leihau costau a gwella mynediad at wasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cymorth arbenigol yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Cafodd yr optimistiaeth hon ei chymedroli gan bryderon a godwyd gan chwech o ymatebwyr, yn enwedig ynghylch diogelu a chysondeb. Heb oruchwyliaeth Arolygiaeth Gofal Cymru, byddai'r cyfrifoldeb dros fonitro a sicrhau ansawdd yn symud i gyrff comisiynu, gan ysgogi cwestiynau ynghylch sut byddai safonau'n cael eu cynnal ar draws gwahanol ranbarthau. Rhybuddiodd pedwar ymatebydd yn benodol y gallai hyn gynyddu'r risgiau i blant agored i niwed a'u teuluoedd os na chaiff ei reoli'n ofalus.

Awgrym a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd cyflwyno modiwl hyfforddiant gorfodol a fyddai'n canolbwyntio ar fabwysiadu, a fyddai'n cael ei ddarparu ar-lein yn ddelfrydol. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd o sicrhau bod darparwyr yn gallu diwallu anghenion cyfannol teuluoedd mabwysiadol, gyda phwyslais ar gefnogi'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn a gweithio gyda theuluoedd fel unedau integredig.

Tynnodd sawl ymateb sylw hefyd at y ffaith bod modelau gwasanaeth presennol yn aml yn methu â diwallu anghenion cymhleth teuluoedd mabwysiadol. Ystyriwyd bod mwy o hyblygrwydd wrth gomisiynu yn ffordd i awdurdodau lleol gynnig cymorth therapiwtig wedi'i deilwra'n well. Ystyriwyd bod lleihau beichiau gweinyddol yn fantais ymarferol, yn enwedig i ddarparwyr llai sydd o bosibl yn cael eu heithrio ar hyn o bryd oherwydd cymhlethdod rheoleiddiol.

Er gwaethaf y manteision posibl hyn, roedd rhai ymatebwyr yn dal yn betrusgar. Roedd dau yn cwestiynu a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at ehangu ystyrlon yn y farchnad, gan nodi y gallai fframweithiau caffael a rheoleiddio barhau i beri heriau i newydd-ddyfodiaid. Awgrymodd un ymateb y gallai rhestrau darparwyr gynnwys cymariaethau cost i helpu i gynnal fforddiadwyedd ac ansawdd.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio ein dealltwriaeth o'r goblygiadau posibl i'r sector gofal cymdeithasol.

Mae'r ymatebion yn tynnu sylw at awydd clir i ddiwygio sy'n galluogi mwy o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun cymorth mabwysiadu. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod

unrhyw newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio yn cynnal ffocws cryf ar ddiogelu, sicrhau ansawdd a mynediad teg at wasanaethau.

Yn sgil yr adborth, byddwn yn edrych ar fecanweithiau i gefnogi cyrff comisiynu i gynnal safonau cyson ar draws rhanbarthau. Mae hyn yn cynnwys ystyried gwell canllawiau, adnoddau a rennir, a dulliau cydweithredol o oruchwylio. Rydym hefyd yn cydnabod y gwerth a roddir ar ddatblygu'r gweithlu a byddwn yn asesu dichonoldeb cyflwyno hyfforddiant i gefnogi darparwyr i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu sy'n adlewyrchu’r arferion gorau a chymorth cyfannol i deuluoedd.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn am ymestyn yr esemptiad rhag cofrestru o dan Ran 1 RISCA i ddarparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu sy’n gyrff corfforaethol a phartneriaethau, sy'n darparu'r gwasanaethau hynny o dan gontract gyda gwasanaeth mabwysiadu cofrestredig yn unig?**

Cafwyd deuddeg ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r deuddeg ymateb a gafwyd, roedd saith yn cefnogi'r cynnig i ymestyn yr esemptiad rhag cofrestru o dan Ran 1 RISCA i ddarparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu sy’n gyrff corfforaethol a phartneriaethau sy'n gweithio'n gyfan gwbl o dan gontract gyda gwasanaeth mabwysiadu cofrestredig. Roedd cefnogwyr o'r farn bod yr esemptiad yn estyniad teg ac ymarferol i'r fframwaith presennol, gan nodi bod darparwyr unigol eisoes wedi'u esemptio o dan rai amodau. Ystyriwyd bod ymestyn hyn i fathau eraill o ddarparwyr yn ffordd o hyrwyddo cysondeb a lleihau'r rhwystrau i ddarparu gwasanaethau ar y cyd, gan alluogi cymorth wedi'i deilwra'n well i deuluoedd.

Tynnodd nifer o'r rhai a oedd o blaid sylw at y posibilrwydd o gael mwy o hyblygrwydd, yn enwedig o ran cael gafael ar wasanaethau therapiwtig neu gwnsela arbenigol. Roeddent yn teimlo, gyda rheolaeth gadarn dros gontractau a goruchwyliaeth gan y gwasanaeth mabwysiadu comisiynu, y gellid cynnal safonau uchel o ofal a diogelu heb fod angen cofrestru ffurfiol.

Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch dileu'r gofyniad cofrestru. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio ar y risg o ansawdd gwasanaeth anghyson a mwy o bwysau ar gyrff comisiynu. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal fframwaith rheoleiddio cryf ac annibynnol, gyda rhybuddion y gallai plant agored i niwed a’u teuluoedd fod yn agored i safonau gofal anghyson pe na bai mesurau diogelu'n cael eu defnyddio'n gyson. Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am atebolrwydd clir a mecanweithiau diogelu cadarn, yn enwedig yn absenoldeb goruchwyliaeth reoleiddiol uniongyrchol.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ragor o dystiolaeth i gefnogi'r newid arfaethedig, gan gynnwys enghreifftiau o rannau eraill o'r DU lle gallai eithriadau tebyg fod wedi cael eu cyflwyno. Roeddent yn teimlo y gallai gwybodaeth gymharol helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a rhoi sicrwydd i randdeiliaid am y risgiau a’r manteision posibl.

Roedd galwad bendant hefyd am gyhoeddi canllawiau clir. Heb hyn, nododd ymatebwyr y gallai dryswch godi ynghylch pa ddarparwyr sy'n cael eu goruchwylio, a pha rai sydd ddim yn cael eu goruchwylio, yn enwedig mewn achosion sy'n cynnwys

trefniadau cymysg gyda darparwyr sydd wedi'u hesemptio a darparwyr sydd heb gael eu hesemptio.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r adborth a gafwyd yn adlewyrchu amrywiaeth eang o safbwyntiau ar y cynnig, gan dynnu sylw at y manteision posibl a'r meysydd y mae angen eu hystyried yn ofalus. Cydnabyddir gwerth hyrwyddo cysondeb a hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig pan fo mae angen cymorth arbenigol. Ar yr un pryd, pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal mesurau diogelu cryf a threfniadau goruchwylio clir.

Mae'r ymatebion hefyd yn tynnu sylw at yr angen am eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, yn enwedig mewn trefniadau comisiynu cymhleth. Awgrymwyd y byddai gwybodaeth gan awdurdodaethau eraill ac archwilio mecanweithiau sicrhau ansawdd ymhellach yn ddefnyddiol wrth lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, mae bwriad clir i barhau i ymgysylltu â'r sector i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu datblygu ar y cyd, gan ganolbwyntio ar gynnal safonau uchel o ofal a diogelu plant a theuluoedd.

Yn gyffredinol, mae'r ymgynghoriad wedi darparu sylfaen dystiolaeth werthfawr i gefnogi trafodaethau ac ystyriaethau ynghylch y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

### Gwasanaethau cwnsela a gwasanaethau therapiwtig i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu - newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofyniad i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer darparwyr gwasanaethau cwnsela a gwasanaethau therapiwtig i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu?**

O'r 14 ymateb a gafwyd, roedd wyth yn cytuno â'r cynnig, roedd pump yn ei wrthwynebu, ac ni fynegodd un ymatebydd farn glir o blaid nac yn erbyn y cynnig ond cynigiodd awgrymiadau ymarferol i gefnogi gweithredu effeithiol.

Roedd y rhai oedd o blaid y newid yn nodi bod y rheoleiddio a'r goruchwylio proffesiynol presennol yn fesurau diogelu digonol, gan awgrymu y gallai cofrestru ychwanegol fod yn ddiangen. Nodwyd bod y trefniadau comisiynu presennol eisoes yn cynnwys gwiriadau fel cymwysterau, geirdaon a sgrinio cofnodion troseddol. Teimlai rhai y gallai'r gofyniad cofrestru fod yn rhwystr, gan atal gweithwyr proffesiynol cymwys rhag cynnig cymorth, ac y gallai ei ddileu wella mynediad at wasanaethau wedi'u teilwra sy'n ystyriol o drawma. Cyfeiriwyd hefyd at yr egwyddor o ymreolaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda'r farn y dylid grymuso oedolion i wneud dewisiadau gwybodus am eu gofal. Hyd yn oed ymysg cefnogwyr, roedd galw cyson am ganllawiau clir i helpu unigolion i nodi opsiynau cymorth diogel a phriodol heb oruchwyliaeth Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mynegod y rheini a yn gwrthwynebu dileu'r gwasanaeth bryderon ynghylch colli rheoleiddio annibynnol a'r posibilrwydd y byddai ansawdd y gwasanaeth yn anghyson. Roedd pryderon y gallai unigolion, heb gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, dybio'n anghywir eu bod yn defnyddio gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, a allai danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd. Roedd diogelu oedolion agored i niwed yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro, gyda nifer o ymatebion yn pwysleisio y dylai cymorth therapiwtig ar gyfer trawma sy'n gysylltiedig â mabwysiadu bob amser fod yn destun trefn reoleiddio ffurfiol i sicrhau bod safonau priodol yn cael eu bodloni. Pwysleisiodd rhai hefyd fod darpariaeth therapiwtig yn hanfodol a bod yn rhaid ei darparu i safonau cydnabyddedig.

Datgelodd yr ymgynghoriad ddarlun cymhleth, gyda phryderon sylweddol ynghylch diogelu, sicrhau ansawdd a hyder y cyhoedd. Mae'r ymatebion yn awgrymu y dylai unrhyw newid polisi gael ei ategu gan ganllawiau a mesurau diogelu cadarn i sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar gymorth diogel o ansawdd uchel.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r adborth a gafwyd yn adlewyrchu amrywiaeth eang o safbwyntiau ac mae wedi cynnig cipolwg gwerthfawr ar y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod oedolion y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt yn gallu cael gafael ar gymorth therapiwtig diogel o ansawdd uchel. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch diogelu, hyder y cyhoedd, a chysondeb y gwasanaethau a ddarperir. Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol o'r dadleuon a gyflwynwyd ynghylch rheoleiddio proffesiynol, mesurau diogelu o ran comisiynu, a'r posibilrwydd o gael gwell mynediad at wasanaethau arbenigol.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn defnyddio dull cytbwys sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o safbwyntiau a rannwyd. Bydd y fframwaith rheoleiddio wedi'i ddiweddaru yn sicrhau diogelwch a llesiant y rheini sy'n gofyn am gymorth, gan sicrhau gofynion cymesur ar yr un pryd. Ar ben hynny, byddwn yn cryfhau'r canllawiau a'r wybodaeth i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau therapiwtig, gan ganolbwyntio'n glir ar dryloywder, sicrhau ansawdd a dewisiadau gwybodus.

Ein nod yw sicrhau bod pob oedolyn y mae mabwysiadu yn effeithio arno yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arno mewn ffordd sy'n ddiogel, yn barchus ac yn ymatebol i'w amgylchiadau unigol. Byddwn yn ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses hon, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r rheini yr effeithir arnynt.

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n credu y bydd y newidiadau hyn yn gwella mynediad at wasanaethau cwnsela a gwasanaethau therapiwtig angenrheidiol i oedolion a fabwysiadwyd?**

Ar sail y deuddeg ymateb, cymysg oedd y farn ynghylch a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn gwella mynediad at wasanaethau cwnsela a gwasanaethau

therapiwtig i oedolion a fabwysiadwyd, ond roeddent tueddiad iddynt fod yn bwyllog optimistaidd. O'r holl ymatebion, roedd saith yn cytuno y byddai'r newidiadau'n debygol o wella mynediad, ac roedd pedwar yn anghytuno. Nid oedd un ymateb arall yn mynd i'r afael yn glir â'r cwestiwn ond roeddent yn dal i gynnig myfyrdodau gwerthfawr ar agweddau cysylltiedig ar y cynnig a chyd-destun ehangach y sector.

Tynnodd cefnogwyr y newidiadau sylw at nifer o fanteision allweddol. Teimlai llawer y gallai dileu gofyniad cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru ehangu'r gronfa o ddarparwyr sydd ar gael, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio gan gyrff proffesiynol. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd o leihau amseroedd aros hir a gwella parhad gofal, yn enwedig i unigolion sy'n delio â thrawma. Nododd ymatebwyr hefyd fod y newidiadau'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n cefnogi ymreolaeth a dewisiadau gwybodus mewn penderfyniadau gofal. Fodd bynnag, hyd yn oed ymysg y rhai a oedd yn cytuno, roedd cydnabyddiaeth y byddai gwell mynediad yn dibynnu ar seilwaith ategol fel canllawiau clir, fframweithiau sicrhau ansawdd, a chydweithio ar draws awdurdodau.

Cododd y rhai a oedd yn anghytuno bryderon am rwystrau ymarferol.  Roedd cyllid a fforddiadwyedd yn themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro, gyda nifer o ymatebwyr yn nodi, heb gymorth ariannol, efallai na fyddai mwy o argaeledd darparwyr yn golygu mynediad cyfartal. Roedd eraill yn poeni y gallai dileu goruchwyliaeth Arolygiaeth Gofal Cymru beryglu ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roedd un ymateb yn cwestiynu a fyddai darparwyr yn ymuno â'r farchnad heb sicrwydd o enillion, gan fwrw amheuaeth ynghylch a fyddai dadreoleiddio ar ei ben ei hun yn arwain at welliannau ystyrlon.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn awgrymu, er y gallai’r newidiadau arfaethedig wella mynediad, y bydd eu llwyddiant yn dibynnu ar fynd i'r afael â materion allweddol fel cyllid, sicrhau ansawdd a thryloywder. Mae'r ystyriaethau hyn yn hanfodol i sicrhau y gall oedolion a fabwysiadwyd elwa o gymorth therapiwtig amserol, diogel ac effeithiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn cydnabod y safbwyntiau meddylgar ac amrywiol a rannwyd ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod oedolion a fabwysiadwyd yn gallu cael gafael ar gymorth therapiwtig amserol, priodol ac o ansawdd uchel.  Bwriad dileu cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer darparwyr gwasanaethau cwnsela a gwasanaethau therapiwtig i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu yw lleihau rhwystrau a gwella hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu rhoi ar waith ochr yn ochr â mesurau sy'n cynnal ansawdd gwasanaethau, yn diogelu defnyddwyr, ac yn hyrwyddo mynediad cyfartal. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau clir a chryfhau mecanweithiau goruchwylio. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid ledled Cymru i sicrhau bod oedolion a fabwysiadwyd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn ffordd sy'n ddiogel, yn ymatebol ac yn cyd-fynd â'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, pa effaith ar ansawdd y bydd y newidiadau hyn yn eu cael ar wasanaethau cwnsela a gwasanaethau therapiwtig i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu?**

Cafwyd tri ymateb ar ddeg a oedd yn datgelu sbectrwm eang o safbwyntiau ar effaith bosibl y newidiadau arfaethedig i wasanaethau cwnsela a gwasanaethau therapiwtig i oedolion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu. O'r tri ymateb ar ddeg a gafwyd, mynegodd chwech safbwynt cadarnhaol neu niwtral, gan awgrymu y gallai mwy o hyblygrwydd a dewis wella'r gwasanaeth a ddarperir. Teimlai'r ymatebwyr hyn y gallai dileu gofynion cofrestru ffurfiol agor y farchnad i ystod ehangach o ddarparwyr, gan efallai leihau amseroedd aros a gwella mynediad at gymorth mwy arbenigol wedi'i deilwra. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd o rymuso defnyddwyr gwasanaethau, gan roi mwy o reolaeth iddynt dros eu gofal therapiwtig a meithrin gwasanaethau mwy ymatebol a phersonol.

Fodd bynnag, mynegodd dau ymateb bryderon ynghylch goblygiadau llai o oruchwyliaeth reoleiddiol. Roedd y cyfranwyr hyn yn poeni, heb wiriadau ffurfiol, y gallai ansawdd gwasanaethau fod yn anghyson ac y gallai oedolion agored i niwed ddod i gysylltiad ag ymarferwyr heb y cymwysterau neu'r profiad angenrheidiol. Roedd diogelu yn fater allweddol, gyda phryderon na fyddai rhai darparwyr wedi'u hyfforddi'n ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau emosiynol a seicolegol cymhleth sy'n aml yn gysylltiedig â mabwysiadu.

Thema a gododd dro ar ôl tro yn yr ymgynghoriad oedd pwysigrwydd hyfforddiant arbenigol a safonau proffesiynol. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr, beth bynnag fo'r newidiadau rheoleiddiol, y dylai therapyddion a chwnselwyr sy'n gweithio ym maes mabwysiadu fod yn gysylltiedig â chyrff proffesiynol sy'n cynnal safonau moesegol ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus. Ystyriwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu mynd i'r afael â materion fel hunaniaeth, trawma ac anawsterau ymlyniad gyda sensitifrwydd a chymhwysedd.

Nododd rhai cyfranogwyr hefyd y byddai gwybodaeth gefndir gliriach wedi cefnogi ymgysylltiad mwy ystyrlon â'r ymgynghoriad. Teimlai rhai y byddai mwy o eglurder ynghylch rhesymeg, risgiau a manteision y newidiadau arfaethedig wedi eu helpu i asesu'r effaith bosibl yn fwy hyderus. Mae'r myfyrdodau hyn yn cyfeirio at gyfle i gryfhau ymgynghoriadau yn y dyfodol drwy sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu a'u cefnogi i gyfrannu'n llawn, gan annog proses datblygu polisi fwy cynhwysol ac adeiladol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob unigolyn y mae mabwysiadu yn effeithio arno yn gallu cael gafael ar gymorth therapiwtig diogel ac effeithiol o ansawdd uchel.

Ein bwriad yw gwella hygyrchedd ac ymatebolrwydd yn y system, gan gynnal mesurau diogelu a safonau proffesiynol priodol ar yr un pryd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes sensitif hwn yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol, a byddwn yn parhau i archwilio mecanweithiau sy'n hyrwyddo atebolrwydd ac yn cynnal ansawdd gwasanaethau.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn ystyried y ffordd orau o gydbwyso hyblygrwydd â'r angen am oruchwyliaeth gadarn. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd ar gyfer cryfhau datblygiad proffesiynol, ymarfer moesegol, a grymuso defnyddwyr gwasanaeth. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu clir a thryloywder wrth ddatblygu polisi a byddwn yn ceisio gwella ymgynghoriadau yn y dyfodol i gefnogi ymgysylltu gwybodus ac ystyrlon.

Bydd yr adborth a gawn yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o lunio ein camau nesaf, ac rydym yn diolch i'r holl ymatebwyr am eu cyfraniadau.

**Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fanteision) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau eu cael ar wahanol sefydliadau neu sectorau ym maes gofal cymdeithasol?**

Cafwyd un ymateb ar ddeg i gwestiwn yr ymgynghoriad. Thema gyffredin ar draws yr ymatebion oedd y fantais a ragwelwyd o ehangu'r gronfa o ddarparwyr gwasanaethau. Soniwyd am hyn mewn o leiaf pump o'r prif ymatebion, a oedd yn awgrymu y gallai cynyddu argaeledd ac amrywiaeth gwasanaethau leihau oedi wrth gomisiynu a meithrin amgylchedd mwy cystadleuol. Nododd ymatebwyr y gallai cystadleuaeth o'r fath arwain at ansawdd gwasanaeth gwell a chostau a allai fod yn is.

Fodd bynnag, codwyd pryderon mewn sawl ymateb am oblygiadau symud y cyfrifoldeb dros fonitro a diogelu i gyrff comisiynu yn unig. Awgrymwyd y gallai dileu goruchwyliaeth annibynnol arwain at safonau anghyson ar draws gwahanol ardaloedd, a allai beryglu diogelwch a llesiant unigolion agored i niwed. Ystyriwyd y byddai’r newid hwn hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau lleol sydd eisoes dan straen a gallai effeithio ar hyder y cyhoedd yn y system.

Tynnwyd sylw at faterion yn ymwneud â thegwch mewn dau ymateb, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith, er y gallai mwy o ddarparwyr fod ar gael, y gallai mynediad at wasanaethau barhau i ddibynnu ar allu unigolyn i dalu. Heb fodelau cyllido teg a chomisiynu strategol, efallai na fyddai manteision y newidiadau i’r rheoliadau yn cael eu gwireddu'n llawn gan y rhai sydd fwyaf mewn angen.

Pwysleisiodd un ymateb bwysigrwydd cysoni'r newidiadau arfaethedig â'r dyletswyddau deddfwriaethol presennol, gan awgrymu y gallai integreiddio cyfrifoldebau fel cwnsela ar ôl mabwysiadu i strategaethau comisiynu wella canlyniadau. Ystyriwyd bod egwyddorion dewis, rheolaeth a llesiant yn fframwaith mwy modern a ddylai lywio datblygiadau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, er eu bod yn bwyllog optimistaidd ynghylch y posibilrwydd o wella darpariaeth a mynediad at wasanaethau, roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am weithredu gofalus, goruchwyliaeth gadarn, a chyllid teg i sicrhau bod y newidiadau o fudd i bob unigolyn sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Fe wnaeth yr ymatebion dynnu sylw at ystyriaethau pwysig wrth roi'r newidiadau ar waith, yn enwedig o ran sicrhau cysondeb, diogelu a mynediad teg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal hyder y cyhoedd yn y system ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n seiliedig ar oruchwyliaeth gadarn ac atebolrwydd clir.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad fel rhan o'n gwaith i fireinio'r fframwaith rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys archwilio mecanweithiau i gefnogi mynediad teg at wasanaethau, sicrhau eu bod yn cyfateb â dyletswyddau deddfwriaethol presennol, ac ystyried y ffordd orau o gefnogi cyrff comisiynu i ddarparu gofal o ansawdd uchel.

Mae'r adborth a gafwyd wedi helpu i lunio'r polisi sy'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd, ac rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod ei ddarpariaeth yn parhau i adlewyrchu anghenion unigolion a sefydliadau ar draws y sector.

**Cynllunio, Lleoli ac Adolygu Gofal Mabwysiadu - newidiadau rheoleiddio arfaethedig**

**Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno bod angen darparu rhagor o fanylion yng Nghod Ymarfer Rhan 6 i gefnogi gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yn effeithiol os oes gan blentyn gynllun gofal ar gyfer mabwysiadu neu os yw'n cael ei ystyried ar gyfer gwasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu?**

Cafwyd cyfanswm o un ymateb ar ddeg, gyda deuddeg ymatebydd yn amlwg yn cefnogi'r angen am ganllawiau manylach yng Nghod Ymarfer Rhan 6. Teimlent nad oedd y darpariaethau presennol yn ddigon clir i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i reoli cynllunio gofal cymhleth, yn enwedig mewn achosion mabwysiadu. Roedd un ymatebydd yn anghytuno, gan rybuddio y gallai'r newidiadau arfaethedig flaenoriaethu mabwysiadu'n anfwriadol dros opsiynau sefydlogrwydd eraill fel Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig neu ofal gan berthynas, a phwysleisiodd bwysigrwydd archwilio pob dewis arall. Roedd y naw ymateb arall naill ai'n ddi-ymrwymiad neu'n aneglur, er bod llawer yn dal i gynnig gwybodaeth werthfawr. Roedd un ymateb yn canolbwyntio ar sylwadau ynghylch Cynadleddau Grŵp Teulu ac anghenion ehangach y sector ond nid oedd yn dangos yn glir ei fod yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig.

Ar draws yr ymatebion, roedd cefnogaeth gref i ganllawiau cliriach sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn egluro rolau proffesiynol, gan helpu i sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol. Thema gyson oedd pwysigrwydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gyda galwadau i sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog drwy gydol y broses fabwysiadu ac ar ôl mabwysiadu. Codwyd pryderon hefyd ynghylch amwysedd y cynlluniau cymorth mabwysiadu, gydag ymatebwyr yn nodi mai cyfyngedig fyddai'r gwelliannau heb ddigon o gyllid a seilwaith. Tynnodd rhai

sylw at yr angen i osgoi penderfyniadau mabwysiadu cynamserol ac roeddent yn eirioli dros Gynadleddau Grŵp Teulu i sicrhau bod yr holl opsiynau sefydlogrwydd yn cael eu hystyried yn deg. Yn olaf, nododd nifer o ymatebwyr fylchau mewn gwasanaethau therapiwtig ar ôl mabwysiadu, gan alw am gymorth hirdymor wedi'i deilwra'n well i ddiwallu anghenion sy'n esblygu ymysg plant a theuluoedd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y themâu allweddol a godwyd drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i bob proses gwneud penderfyniadau, gwerth Cynadleddau Grŵp Teulu wrth archwilio ystod lawn o opsiynau sefydlogrwydd, a'r angen i gryfhau mynediad at wasanaethau therapiwtig ar ôl mabwysiadu.

Mewn ymateb i'r adborth hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn **ystyried yr holl sylwadau'n ofalus** fel rhan o'i hadolygiad parhaus o God Ymarfer Rhan 6. Bydd y mewnwelediadau a ddarperir yn llywio'n uniongyrchol y gwaith o ddatblygu canllawiau cliriach a mwy cynhwysfawr sy'n cefnogi gweithwyr cymdeithasol i ddarparu ymarfer cyson sy'n canolbwyntio ar y plentyn ledled Cymru. Ein nod yw sicrhau bod y Cod diwygiedig yn cyd-fynd â'r gofynion deddfwriaethol a hefyd yn adlewyrchu realiti ymarfer ac anghenion plant a theuluoedd.

**Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno y bydd y meysydd ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cynnwys yn y Cod Ymarfer yn rhoi eglurder ychwanegol i ymarferwyr, os oes gan blentyn gynllun gofal neu os yw'n cael ei ystyried ar gyfer gwasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu?**

O blith cyfanswm o 14 ymateb, roedd deuddeg o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai'r ychwanegiadau arfaethedig yn fuddiol. Roedd y ddau ymateb arall yn anghytuno â'r cynnig

Ymysg y rhai a oedd yn cytuno, roedd consensws cryf y byddai'r newidiadau arfaethedig yn gwella eglurder a chysondeb ledled Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu cynnwys canllawiau manylach o ran cynllunio gofal, rolau gwahanol gynlluniau (fel cynllun gofal a chymorth Rhan 6 a'r cynllun cymorth mabwysiadu), a'r fframwaith rheoleiddio ar gamau allweddol yn y broses fabwysiadu. Ystyriwyd bod yr ychwanegiadau hyn yn hanfodol i helpu ymarferwyr i lywio drwy sefyllfaoedd cymhleth a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Tynnodd nifer o ymatebion sylw at werth cyfeirio at ganllawiau a fframweithiau arferion da, fel Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, a oedd yn cael eu hystyried yn adnoddau ymarferol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a hyrwyddo unffurfiaeth wrth ddarparu gwasanaethau.

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd yr angen am ganllawiau cliriach ar gymorth ar ôl mabwysiadu. Nododd yr ymatebwyr bod y trefniadau presennol yn gallu bod yn anghyson, a bod angen cynlluniau cymorth mwy cadarn sy'n briodol i oedran, yn enwedig mewn meysydd fel gwaith therapiwtig stori bywyd a gofal sy'n ystyriol o

drawma. Roedd pryder hefyd nad yw rhai gwasanaethau, fel Cynadleddau Grŵp Teulu, bob amser yn cael eu cynnig yn rhagweithiol, rhywbeth a allai gyfyngu ar gyfleoedd i deuluoedd gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

O ran yr ymatebion a oedd yn dangos anghytundeb, ni roddwyd esboniad pellach i'n helpu i ddeall y rhesymau y tu ôl i'w safbwynt.

Yn gyffredinol, mae'r adborth yn awgrymu bod cefnogaeth gref i ychwanegiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru at y Cod Ymarfer, gyda'r ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd eglurder, cysondeb a chynllunio cymorth cynhwysfawr i wella canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n ymwneud â mabwysiadu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mewn ymateb i'r adborth hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fireinio'r ychwanegiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y fersiwn derfynol yn darparu canllawiau clir, ymarferol a chynhwysfawr sy'n cefnogi ymarferwyr i ddarparu gwasanaethau cyson o ansawdd uchel. Ein nod yw gwella canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n ymwneud â mabwysiadu drwy wreiddio eglurder, atebolrwydd ac arferion gorau yn y broses cynllunio gofal a chymorth o'r dechrau i'r diwedd.

Mae'r adborth hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio camau nesaf ein gwaith, ac rydym yn ddiolchgar am ymgysylltiad parhaus rhanddeiliaid ar draws y sector.

**Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno y bydd ychwanegu cyfeiriadau at Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn cael gwared ar unrhyw ddryswch ymysg ymarferwyr?**

O'r 14 ymateb a gafwyd, roedd un ar ddeg yn cefnogi cyfeirio at Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn y Cod Ymarfer. Teimlai'r ymatebwyr y byddai gwneud hynny'n cynyddu eglurder i ymarferwyr, yn enwedig drwy roi gwell ddiffiniad o rôl gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru - gofalwyr maeth sydd hefyd wedi'u cymeradwyo fel darpar fabwysiadwyr. Ystyriwyd bod y rôl ddeuol hon yn ffordd o leihau newidiadau mewn lleoliadau a lleihau trawma i blant, ar yr un pryd â hyrwyddo rhagor o gysondeb ar draws awdurdodau lleol.

Roedd cefnogaeth gref i wreiddio Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn y Cod i gysoni disgwyliadau a phrosesau ar draws y sector. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod hwn yn gam cadarnhaol tuag at wella hyder a dealltwriaeth ymarferwyr o'r llwybr gofal. Er bod yr adborth cyffredinol yn gefnogol, nododd rhai ymatebion mai nifer cyfyngedig o fabwysiadwyr sy'n barod i gymryd rhan yn Sefydlogrwydd Cynnar Cymru ar hyn o bryd. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd dull gweithredu pwyllog a chynaliadwy; un sy'n adlewyrchu'r capasiti presennol ar yr un pryd â chefnogi twf yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae'r adborth yn tynnu sylw at awydd clir am fwy o eglurder a chysondeb mewn ymarfer sefydlogrwydd cynnar, ac mae angen ystyriaeth ofalus i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n ymarferol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.

O'r tri ymateb a oedd yn dangos anghytundeb, ni roddodd neb sylwadau i egluro eu rhesymeg, gan ei gwneud yn anodd deall sail eu safbwyntiau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr adborth a gafwyd ac yn croesawu'r gefnogaeth eang i gyfeirio at Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn y Cod Ymarfer. Rydym yn cydnabod potensial y cynhwysiant hwn i wella eglurder i ymarferwyr a hyrwyddo mwy o gysondeb wrth gynllunio gofal ledled Cymru.

Wrth i ni ystyried y ffordd orau o gynnwys cyfeiriadau at Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, byddwn yn sicrhau bod unrhyw ganllawiau a ddatblygir yn glir, yn hygyrch ac yn adlewyrchu'r arferion presennol. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i roi newidiadau ar waith mewn ffordd sy'n gymesur ac yn gynaliadwy - gan ystyried y capasiti presennol a chefnogi datblygiad parhaus dulliau sefydlogrwydd cynnar.

Mae ein hymrwymiad yn parhau i ganolbwyntio'n gadarn ar wella canlyniadau i blant drwy gynllunio gofal effeithiol, tosturiol a gwybodus.

**Cwestiwn 13**: **Yn eich barn chi, pa effaith y gallai'r newidiadau arfaethedig a amlinellir yn y cynnig hwn eu cael ar wahanol sefydliadau neu sectorau ym maes gofal cymdeithasol?**

Cafwyd cyfanswm o ddeuddeg o ymatebion.  Yn gyffredinol, mae'r adborth yn adlewyrchu barn gadarnhaol am y newidiadau arfaethedig, gyda nifer o themâu allweddol yn dod i'r amlwg.

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r posibilrwydd o well eglurder ac arweiniad, yn enwedig o ran rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau statudol. Ystyriwyd bod hon yn ffordd o gefnogi cynllunio gofal mwy effeithiol, lleihau dryswch, a chryfhau cydweithio rhwng asiantaethau. Teimlai llawer hefyd y byddai'r newidiadau'n cyfrannu at ganlyniadau gwell i blant a theuluoedd, drwy hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gwella sefydlogrwydd lleoliadau, a sicrhau cymorth amserol a phriodol drwy gydol y broses fabwysiadu.

Roedd y cynigion hefyd yn cael eu hystyried yn ffordd o rymuso ymarferwyr, gyda disgwyl i ganllawiau gwell a chyfeiriadau at arferion gorau gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mwy cyson o ansawdd uchel a lleihau'r risg o gamgymeriadau. Nodwyd bod cysoni deddfwriaeth a chanllawiau yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y system a chefnogi'r gwaith ehangach o drawsnewid gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.

Er bod y naws gyffredinol yn gefnogol, cododd rhai ymatebwyr rybuddion ac ystyriaethau, gan gynnwys pryderon am gyfyngiadau o ran adnoddau a allai arwain at benderfyniadau sy'n cael eu harwain gan y gwasanaeth yn hytrach na phenderfyniadau sy'n cael eu harwain gan anghenion.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr hefyd yr angen am gydlynu cryfach ar draws meysydd polisi yn Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn sgil nifer yr ymgynghoriadau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig er mwyn osgoi ymgysylltu sy'n gorgyffwrdd a chefnogi dull gweithredu mwy cydlynol a syml.

I grynhoi, mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth gref i'r newidiadau arfaethedig, gyda phwyslais clir ar sicrhau bod y diwygiadau yn cael eu hintegreiddio'n dda, eu cyfleu'n glir, a'u seilio ar realiti ymarferol darparu gwasanaethau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r adborth meddylgar ac adeiladol a ddarperir gan randdeiliaid. Mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth gref i gyfeiriad y newidiadau arfaethedig ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd eglurder, cysondeb ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth gynllunio gofal mabwysiadu.

Nodwyd y pryderon a godwyd ynghylch risgiau gweithredu a chydlyniant polisi a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw waith datblygu polisi yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y diwygiadau wedi'u hintegreiddio'n dda, eu bod yn cael eu cyfleu'n glir, a'u bod yn ymateb i realiti ymarferol darparu gwasanaethau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i fireinio'r cynigion a sicrhau bod y fframwaith polisi terfynol yn cefnogi canlyniadau gwell i blant, teuluoedd ac ymarferwyr ledled Cymru.

**Asesu gofalwyr sy'n berthnasau a chymorth ar gyfer lleoliadau gyda pherthnasau - newidiadau rheoleiddiol arfaethedig**

**Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno y dylid disodli Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 â Rhan 3 newydd yn benodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau?**

Cafwyd dau ymateb ar hugain i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 17 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd pedwar yn anghytuno, ac nid oedd un ymateb yn nodi safbwynt yn glir.

Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gefnogaeth bendant i'r newid, gan bwysleisio bod gofal gan berthynas yn sylfaenol wahanol i faethu prif ffrwd. Mae gofalwyr sy'n berthnasau yn aml yn camu i'w rolau yn ystod cyfnodau o argyfwng teuluol, gan ofalu am blant y maent eisoes yn eu hadnabod ac y mae ganddynt berthynas â nhw. Teimlai llawer nad yw'r fframwaith presennol yn adlewyrchu'r amgylchiadau unigryw hyn yn ddigonol ac y byddai adran bwrpasol yn alinio'r rheoliadau'n well â realiti gofal gan berthynas.

Roedd cefnogwyr y cynnig yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu'r egwyddorion y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig, ac y byddai ffurfioli'r arferion hyn yn arwain at gysondeb ledled Cymru. Roedd cefnogaeth hefyd i gysoni'r rheoliadau newydd â Chanllaw

Arfer Da AFKA Cymru ac ymgorffori adnoddau fel cynllun asesu a chefnogi Ffurflen K. Roedd rhai ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd darparu arweiniad a hyfforddiant penodol i aelodau'r panel a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn asiantaethau i sicrhau asesiadau priodol.

Rhannodd nifer o ymatebwyr brofiadau personol neu broffesiynol a oedd yn dangos yr heriau ariannol ac ymarferol a wynebir gan ofalwyr sy'n berthnasau. Nodwyd bod disgwyl yn aml i ofalwyr sy'n berthnasau gyrraedd yr un safonau â gofalwyr maeth prif ffrwd heb gael cymorth cyfatebol fel cymorth cyfreithiol, emosiynol, ymarferol neu dâl, sy'n gallu arwain at galedi sylweddol. Roedd y safbwyntiau hyn yn atgyfnerthu'r angen am ddull asesu a chefnogi mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Fodd bynnag, nid oedd pob ymateb o blaid. Mynegodd rhai bryderon y gallai'r newidiadau arfaethedig greu dryswch neu gynyddu'n anfwriadol nifer y plant sy'n destun gorchmynion gofal yn hytrach na Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, yr oedd rhai’n teimlo y dylid eu hyrwyddo'n fwy gweithredol. Roedd eraill yn cwestiynu a fyddai'r fframwaith newydd wir yn gwella'r prosesau presennol neu a allai gymhlethu gweithdrefnau diogelu ac adolygu. Awgrymodd un ymateb, os nad oes modd cyflawni dewisiadau amgen radical, y gallai fod yn llai dryslyd i ddiwygio'r Rhan 2 bresennol.

Dadleuodd un ymateb manwl nad yw'r newid arfaethedig yn mynd yn ddigon pell ac awgrymodd fod angen diwygio mwy radical. Roedd hyn yn cynnwys dileu asesiadau o berthnasau o reoliadau maethu yn gyfan gwbl a chanolbwyntio yn lle hynny ar gryfhau fframweithiau Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a datblygu trefniadau dros dro newydd ar gyfer unigolion cysylltiedig. Y farn yma oedd na fyddai ychwanegu adran newydd at y rheoliadau presennol yn mynd i'r afael â'r problemau systemig dyfnach sy'n effeithio ar ganlyniadau i blant sy'n derbyn gofal gan berthynas.

Yn gyffredinol, er bod y cynnig wedi cael cefnogaeth eang, roedd safbwyntiau cynnil ar ei effaith bosibl, gyda rhai'n galw am ddiwygio mwy cynhwysfawr i wir ddiwallu anghenion gofalwyr sy'n berthnasau a'r plant maent yn eu cefnogi.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r adborth a gafwyd wedi cynnig cipolwg gwerthfawr ar brofiadau a safbwyntiau'r rhai sy'n gweithio ar draws y sector, a byddwn yn ystyried yr adborth hwn wrth i ni fwrw ymlaen gydag unrhyw newidiadau.

Mae'r cynnig hwn yn ddatblygiad ystyrlon o ran sut mae gofal maeth gan berthynas yn cael ei gydnabod o fewn y fframwaith rheoleiddio. Mae'n adlewyrchu ein bwriad i gydnabod natur unigryw gofal gan berthynas yn well a sicrhau bod y systemau sydd ar waith yn fwy ymatebol i'r realiti a wynebir gan ofalwyr sy'n berthnasau a'r plant y maent yn eu cefnogi.

Rydym yn deall bod hwn yn gam pwysig, ond nid o reidrwydd y cam olaf. Efallai y bydd cyfleoedd yn y dyfodol i ystyried diwygiadau mwy eang, yn enwedig os oes diddordeb a chefnogaeth gan lywodraeth yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys archwilio

dulliau cyfreithiol a pholisi amgen o ymdrin â sefydlogrwydd a chefnogaeth i ofalwyr sy'n berthnasau y tu allan i'r system faethu.

Am y tro, mae'r cynnig hwn yn gosod sylfaen ar gyfer cymorth priodol wedi'i deilwra'n well, ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn parhau i wasanaethu buddiannau gorau plant a theuluoedd ledled Cymru.

**Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno â'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y Rhan 3 arfaethedig newydd?**

Cafwyd un ymateb ar hugain i Gwestiwn 15 ynghylch y cynnwys arfaethedig i'w gynnwys yn Rhan 3 newydd y fframwaith gofal maeth gan berthnasau. O'r rhain, roedd un ymatebwr ar bymtheg yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, roedd pedwar yn anghytuno, ac roedd un ymateb yn aneglur.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynnwys arfaethedig, gan ei ddisgrifio fel rhywbeth priodol, perthnasol sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn na'r trefniadau presennol. Teimlai llawer fod y newidiadau'n adlewyrchu realiti gofal gan berthynas yn well, yn enwedig yr angen i deilwra asesiadau i gyd-destun y plant a’r teuluoedd penodol yn hytrach na gosod safon unffurf. Ystyriwyd bod y newid hwn yn gyson ag adborth gan ofalwyr a phobl ifanc sy’n teimlo bod y system bresennol yn rhy anhyblyg ac nad yw bob amser yn gymesur.

Tynnodd nifer o ymatebion sylw at y ffaith y byddai'r cynigion yn helpu i wella eglurder a chysondeb yn ymarferol, gan gynnal safonau diogelu cadarn ar yr un pryd. Roedd ymdeimlad cryf y byddai'r newidiadau'n cefnogi lleoliadau mwy sefydlog a chanlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal o fewn eu teuluoedd estynedig. Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod y fframwaith arfaethedig yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu gofalwyr sy'n berthnasau ac yn hyrwyddo proses asesu fwy cefnogol ac ystyrlon.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am oblygiadau posibl y newidiadau. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon y gallai'r cynigion gymhlethu’r systemau presennol, cynyddu nifer y plant sy'n mynd i ofal, lleihau'r defnydd o Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig a chyflwyno haen o ansawdd a safonau i blant a allai arwain at ganlyniadau gwael i blant. Awgrymodd un ymateb nad yw'r safonau presennol sy'n berthnasol i ofalwyr sy'n berthnasau yn addas i'r diben ac y byddai'r newidiadau arfaethedig yn caniatáu dull mwy hyblyg sy’n sensitif i gyd-destun, yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd cydnabyddiaeth hefyd o'r angen am ganllawiau cysylltiedig i gefnogi'r broses weithredu, yn enwedig ar gyfer paneli gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, rhannodd un ymatebydd fyfyrdod personol ar bwysigrwydd cymorth cynnar i ofalwyr sy'n berthnasau, gan nodi y gallai gwell dealltwriaeth o risgiau a deinameg teulu ar y dechrau fod wedi helpu i leihau straen a gwella canlyniadau

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r gymeradwyaeth eang i'r cyfeiriad sy'n cael ei gymryd ac yn cydnabod y gefnogaeth gref i ddull mwy pwrpasol a chymesur o asesu gofal maeth gan berthnasau. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cysoni prosesau asesu ag egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n sensitif i gyd-destun, gan gynnal safonau diogelu cadarn ar yr un pryd.

Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd gan leiafrif o'r ymatebwyr ynghylch y goblygiadau posibl i ymarfer a chanlyniadau. Mae'r safbwyntiau hyn wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth lunio'r cynnwys terfynol, sy'n adlewyrchu dull cytbwys o fynd i'r afael â'r materion hyn.

Bydd yr adborth a gafwyd yn helpu i sicrhau bod y fframwaith yn hyrwyddo eglurder, cysondeb a chanlyniadau gwell i blant a gofalwyr. Byddwn hefyd yn ystyried yr angen am ragor o arweiniad i gefnogi'r gwaith o weithredu a gwneud penderfyniadau effeithiol ar draws y sector.

**Cwestiwn 16: A oes unrhyw elfennau o Ran 2 y byddai angen eu hychwanegu at Ran 3 hefyd? Os felly, pa rai?**

Cafwyd 21 ymateb. O'r rhain, roedd saith ymatebydd yn cytuno bod angen ychwanegiadau, roedd tri ar ddeg yn anghytuno, ac roedd un ymateb yn aneglur.

Ymysg y rhai a oedd yn cytuno, roedd pwyslais cryf ar bwysigrwydd ymgorffori elfennau fel diogelu, sicrhau ansawdd, a hanes cyflogaeth. Teimlai'r cyfranwyr hyn y byddai ychwanegiadau o'r fath yn gwella cadernid y broses asesu ac yn sicrhau safonau cyson ar draws pob math o ofal maeth. Tynnodd un ymatebydd sylw at bwysigrwydd sicrhau gofal o'r safon uchaf i blant. Roedd ymateb arall yn cyfiawnhau bod asesiad o gyflogaeth bresennol a blaenorol yn gallu helpu i ddangos sefydlogrwydd, gallu a phrofiad gofalwyr. Roedd pedwar ymateb yn tynnu sylw at yr angen i asesu gallu gofalwr i gefnogi hunaniaeth plentyn, gan gynnwys agweddau'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, a chefndir diwylliannol neu grefyddol. O'r ymatebion hyn, nodwyd na ellir tybio y bydd gan ofalwyr sy'n berthnasau yr un cefndir o ran hil, crefydd neu ddiwylliant â'r plentyn a galwyd am ddealltwriaeth o sut y bydd anghenion hunaniaeth y plentyn yn cael eu diwallu, ac asesiad o ba gymorth y gallai fod ei angen i ddiwallu'r anghenion hynny. Tynnodd eraill sylw at y ffaith y dylid ystyried profiad o ofalu yn y gorffennol a sgiliau a chymhwysedd y gofalwr yn elfennau hanfodol o'r asesiad. Awgrymodd un ymateb y dylid cynnwys safon byw a gweithgareddau hamdden a diddordebau darpar ofalwyr er mwyn darparu cyd-destun a chefndir i gynorthwyo asesiadau.

I'r gwrthwyneb, teimlai dau ymatebydd fod Rhan 3 eisoes wedi'i theilwra'n ddigonol i gyd-destun penodol gofal gan berthynas ac nad oedd angen elfennau o Ran 2. Roedd yr ymatebion hyn yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar y broses a pheidio â'i chymhlethu'n ormodol, o ystyried natur unigryw trefniadau gofal gan berthnasau. Teimlai rhai bod y fframwaith presennol eisoes yn casglu'r wybodaeth angenrheidiol ac y gallai ychwanegu mwy ei gwneud yn llai perthnasol neu greu beichiau diangen.

Mynegodd un ymateb ansicrwydd, gan awgrymu efallai na fyddai angen gwahaniaethu rhwng Rhan 2 a Rhan 3 o gwbl. Awgrymodd un arall y dylid cynnwys holl elfennau Rhan 2 yn Rhan 3, a'r unig ychwanegiad fyddai ei angen fyddai ystyried anghenion y plentyn a'r berthynas bresennol â'r darpar ofalwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r adborth wedi tynnu sylw at ystyriaethau allweddol ar gyfer dyluniad a chwmpas y broses asesu gofal gan berthynas. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod asesiadau'n gymesur ac yn adlewyrchu natur unigryw trefniadau gyda pherthnasau, gan gynnal cysondeb a diogelu safonau ar draws cyd-destunau maethu ar yr un pryd. Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, byddwn hefyd yn cynnwys cyfeiriad at gyflogaeth bresennol a blaenorol yn Rhan 3 newydd y broses asesu, a fydd yn cael ei hychwanegu at Atodlen 1

**Cwestiwn 17: A hoffech chi awgymru unrhyw ofynion ychwanegol y dylid eu cynnwys yn Rhan 3?**

Cafwyd un ar bymtheg o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, nid oedd gan bedwar ymatebydd unrhyw awgrymiadau ar gyfer unrhyw ofynion ychwanegol i'w cynnwys yn Rhan 3. I'r gwrthwyneb, mynegodd dau ymateb bryderon ynghylch cyflwyno Rhan 3 gan awgrymu bod y broses asesu eisoes wedi'i sefydlu a bod y broses yn gallu ystyried y berthynas bresennol â darpar ofalwyr. Roedd y pryderon hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r risg y bydd trothwyon ar gyfer sefydlu dadgofrestru gofalwyr maeth yn mynd yn aneglur, gan arwain at fwy o atgyfeiriadau ac oedi yn y Fecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM). Risg arall a oedd yn peri pryder oedd y byddai cyflwyno Rhan 3 yn cynyddu'r dewis o orchmynion gofal dros y llwybr Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig sy'n cysylltu cynnydd yn nifer y plant mewn gofal.
I'r rheini a ddarparodd awgrymiadau ar gyfer gofynion ychwanegol, thema boblogaidd oedd galw am asesiad o anghenion cymorth ariannol, emosiynol ac ymarferol y gofalwr. Gofynnodd un ymatebydd am gyhoeddi canllawiau ar gyfer yr asesiad cymorth hwn ac i'r pecynnau gael eu cynhyrchu ar y cyd â gofalwyr. Ochr yn ochr â hyn, cafwyd awgrymiadau ar gyfer hyfforddiant a datblygiad i gynnwys dealltwriaeth o hanes y plentyn ac asesiad o'u parodrwydd i gymryd rhan mewn hyfforddiant wedi'i deilwra gan berthnasau. I gyd-fynd â hyn, mynegodd rhai ymatebwyr pa mor bwysig yw bod gofalwyr yn cael gwybod am y disgwyliadau o ymgymryd â rôl fel perthynas, gan gynnwys y goblygiadau ariannol a bywyd gwaith, ac i fynychu hyfforddiant a chyfarfodydd. Wrth ystyried y disgwyliadau hyn, roedd un ymateb yn galw am hyblygrwydd wrth fonitro cymorth, yn enwedig mewn perthynas â lleoliadau tymor hir.

Nodwyd y dylai'r asesiadau gynnwys llais y plentyn, gan gynnwys ystyriaethau ar gyfer cymorth i gyflawni a chynnal gofod personol i'r plentyn yn y cartref.

Roedd pedwar ymateb yn trafod yr angen i asesu cyd-destun diwylliannol a chyd-destun pherthnasau gan gynnwys hanes teuluol, swyddogaeth a deinameg gan ystyried sut mae'r rhain yn cael eu rhannu, eu cofnodi a'u hadrodd arnynt. Roeddent hefyd yn ystyried y dylid edrych ar y gallu i reoli cyswllt teuluol.

O ran iechyd yr ymgeisydd, teimlwyd y dylid asesu'r gofalwr i hyrwyddo ffordd iach o fyw, ynghyd ag addysg, i'r plentyn.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid ystyried yr awgrymiadau hyn er mwyn sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng canllaw AFKA Cymru a'r cynigion a wneir gan Lywodraeth Cymru yn yr ymgynghoriad hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r adborth a gafwyd ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y broses asesu gofalwyr sy'n berthnasau yn gymesur, yn glir ac yn cyd-fynd ag arferion gorau. Bydd cyflwyno Rhan 3 o fewn Atodlen 1 yn cryfhau'r fframwaith drwy gefnogi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o amgylchiadau gofalwyr, gan gynnal cysondeb a diogelu safonau ar yr un pryd.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y broses asesu'n parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd, gan barhau i fod yn ymarferol ac yn gynaliadwy i ymarferwyr. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y dull gweithredu'n adlewyrchu natur unigryw gofal gan berthynas ac yn cyd-fynd ag amcanion polisi ehangach.

**Agwedd fwy hyblyg at Gynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion ar gyfer trefniadau gofal gan berthynas**

**Cwestiwn 18: Ydych chi'n meddwl y bydd agwedd fwy hyblyg tuag at ymweliadau ac adolygiadau yn effeithiol o ran diwallu anghenion plant a gofalwyr maeth sy'n berthnasau?**

Cafwyd dau ar hugain o ymatebion i’r cwestiwn hwn. O'r rhain, mynegodd deuddeg eu bod yn cytuno â rhoi mwy o hyblygrwydd, roedd wyth yn anghytuno, ac roedd dau yn aneglur neu'n ansicr.

Roedd rhai ymatebwyr o blaid cael mwy o hyblygrwydd, gan dynnu sylw at fanteision fel llai o darfu ar blant, parch at sefydlogrwydd teuluol, a grymuso gofalwyr sy'n berthnasau. Roeddent yn dadlau y gall hyblygrwydd ganolbwyntio ar y plentyn a chael ei deilwra i amgylchiadau unigol, yn enwedig mewn lleoliadau sefydlog hirdymor, ac y gallai helpu i leihau stigma a beichiau gweithdrefnol.

Mynegodd eraill bryder y gallai llai o oruchwyliaeth beryglu trefniadau diogelu, yn enwedig yng nghyfnod cynnar y lleoliad neu y gallai wneud trefniadau’n llai sefydlog. Rhybuddiodd nifer o ymatebion yn erbyn creu system ddwy haen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, lle mae'r rheini sy'n derbyn gofal gan berthynas yn cael llai o gefnogaeth na'r rheini sydd mewn gofal maeth prif ffrwd. Roedd pryder y gallai hyblygrwydd gael ei gamddefnyddio i leihau costau, gan arwain at gefnogaeth anghyson a llai o gyfleoedd i blant a gofalwyr godi pryderon.

Awgrymodd rhai cyfranwyr y dylai hyblygrwydd gael ei arwain gan feini prawf clir, mecanweithiau diogelu cadarn, a disgresiwn proffesiynol, gan gyfeirio at wersi a

ddysgwyd o ddulliau tebyg yn Lloegr. Roedd pwyslais hefyd ar bwysigrwydd cynnal ymweliadau statudol, yn enwedig yng nghyfnod cynnar lleoliadau, a sicrhau bod gwasanaethau maethu'n parhau i gael eu cynnwys. Roedd rhai ymatebion yn argymell mwy o ddefnydd o Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig lle bo hynny'n briodol, yn hytrach na chadw plant dan orchmynion gofal gyda llai o oruchwyliaeth.

Yn gyffredinol, er y gellir ystyried bod hyblygrwydd yn fuddiol, pwysleisiodd llawer na ddylai fod ar draul lles plant, cefnogaeth gyson, a diogelu.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr amrywiaeth o safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r cynnig i gael dull mwy hyblyg o ymdrin ag ymweliadau ac adolygiadau o fewn trefniadau gofal maeth gan berthnasau. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod yn rhaid i unrhyw newidiadau brosesau statudol barhau i gynnal diogelwch, llesiant a hawliau plant, gan barchu deinameg unigryw gofal gan berthynas ar yr un pryd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod prosesau cynllunio ac adolygu gofal ar gyfer plant sy’n cael gofal maeth gan berthnasau yn gymesur, yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd esblygu ein fframwaith statudol i adlewyrchu amrywiaeth a sefydlogrwydd trefniadau gofal gan berthnasau, gan ganolbwyntio’n glir ar ddiogelu a thegwch ar yr un pryd.

Ein blaenoriaeth yw darparu dull gweithredu cydlynol a chyson sy'n cefnogi barn broffesiynol, yn hyrwyddo sefydlogrwydd, ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael yr oruchwyliaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i wreiddio'r polisi hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn unol ag uchelgeisiau ehangach ar gyfer sefydlogrwydd a llesiant mewn gofal. Ein nod yw sicrhau bod plant sy'n cael gofal gan berthynas yn cael cymorth priodol, cymesur ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau ac yn hyrwyddo eu sefydlogrwydd a'u llesiant hirdymor.

## Cwestiwn 19: Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fanteision) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau eu cael ar wahanol sefydliadau neu sectorau ym maes gofal cymdeithasol?

Cafwyd cyfanswm o bedwar ymateb ar bymtheg, a oedd yn cynnig sbectrwm eang o safbwyntiau ar effaith bosibl y newidiadau rheoleiddio arfaethedig yn y sector gofal cymdeithasol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod y gallai'r newidiadau arwain at arbedion effeithlonrwydd gweithredol, yn enwedig drwy leihau ymweliadau ac adolygiadau statudol. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd o leddfu'r pwysau ar wasanaethau sydd dan straen a chaniatáu i weithwyr proffesiynol ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar blant a theuluoedd sydd angen cymorth dwys.

Fodd bynnag, cafodd y fantais bosibl hon ei chymedroli gan bryderon ynghylch diogelu. Rhybuddiodd nifer o gyfranwyr y gallai llai o oruchwyliaeth arwain at fethu

arwyddion rhybudd cynnar, yn enwedig mewn trefniadau perthnasau lle gall sefydlogrwydd fod yn anodd ei ragweld. Er bod rhai'n teimlo y gallai llai o ymyrraeth gefnogi bywyd teuluol mwy naturiol, rhybuddiodd eraill y gallai hyn symud mwy o gyfrifoldeb i awdurdodau lleol a pheryglu lles plant.

Roedd goblygiadau ariannol yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro. Nododd ymatebwyr fod gofal gan berthynas yn llai costus ar y cyfan na gofal maeth prif ffrwd, ac y gallai'r newidiadau arfaethedig arwain at arbedion pellach. Ac eto, roedd cyd-ddealltwriaeth na ddylai'r arbedion hyn gael eu gwneud ar draul ansawdd neu ddiogelwch. Tynnodd rhai sylw at yr angen i fuddsoddi mewn hyfforddiant staff a chanllawiau cliriach i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu rheoli'r disgwyliadau newydd.

Croesawodd rai'r pendefyniad i gyflwyno categori penodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau fel ffordd o ddod ag eglurder a chysondeb i ymarfer. Mynegodd eraill bryder y gallai hyn greu system ddwy haen, a allai arwain at ddryswch ac annhegwch o ran sut mae gofalwyr a phlant yn cael eu cefnogi.

Pwysleisiodd nifer o ymatebion bwysigrwydd dull hyblyg sy'n cael ei arwain gan yr unigolyn, ac yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ystyriwyd bod hon yn ffordd fwy trugarog ac ymatebol o reoli goruchwyliaeth, wedi'i theilwra i amgylchiadau unigol yn hytrach na strwythurau anhyblyg.

Er gwaethaf y manteision posibl, mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch goblygiadau diogelu disgwyliadau statudol is. Fe dynnon sylw at risgiau sy'n ymwneud â chynllunio gofal, eiriolaeth, a llais y plentyn, gan nodi y gallai plant gael eu gadael yn agored i niwed heb oruchwyliaeth gadarn. Tynnwyd sylw hefyd at y diffyg sicrwydd o gyswllt yn ystod ymweliadau a'r effaith ar adolygiadau gofalwyr maeth fel meysydd y mae angen rhoi ystyriaeth ofalus iddynt.

Roedd rhai cyfranwyr yn dadlau dros ddiwygiadau deddfwriaethol ehangach, gan awgrymu y gellid sicrhau parhad yn well drwy fecanweithiau fel Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. Roeddent yn galw am becynnau cymorth tebyg i'r rhai a gynigir mewn maethu prif ffrwd, gan sicrhau nad oes anfantais ar blant sy'n derbyn gofal gan berthynas.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu optimistiaeth ofalus. Er bod llawer yn gweld y potensial ar gyfer newid cadarnhaol, roedd consensws clir bod yn rhaid cymryd gofal wrth roi unrhyw ddiwygiadau ar waith, gyda mesurau diogelu, hyfforddiant a chymorth ar waith i amddiffyn plant a chynnal ansawdd y gofal

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r adborth yn adlewyrchu amrywiaeth eang o safbwyntiau ac mae wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut y gall y newidiadau arfaethedig gael eu profi'n ymarferol.

Mae'n amlwg bod yn rhaid bod yn ofalus wrth ddiwygio unrhyw reoliadau yn y maes hwn, gan sicrhau bod anghenion plant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn cael eu hystyried yn llawn. Mae'r ymatebion yn tanlinellu pwysigrwydd cynnal

cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a diogelu, a sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn cael eu llywio gan brofiad bywyd, arbenigedd proffesiynol, ac ymrwymiad ar y cyd i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal gan berthynas.

**Proses fwy effeithiol ac effeithlon o symud gofalwyr maeth o un darparwr gwasanaethau maethu i un arall - newidiadau arfaethedig i reoliadau**

**Cwestiwn 20: Ydych chi'n cytuno y bydd dod ag elfennau'r canllawiau arfer da a nodir ym Mhrotocol Trosglwyddo'r Rhwydwaith Maethu ar gyfer Cymru o fewn fframwaith deddfwriaethol, yn cefnogi proses fwy effeithlon o drosglwyddo gofalwyr maeth?**

Cafwyd cyfanswm o ddeunaw ymateb i'r cwestiwn ynghylch y posibilrwydd o wreiddio elfennau o Brotocol Trosglwyddo'r Rhwydwaith Maethu ar gyfer Cymru mewn deddfwriaeth. O'r rhain, mynegodd pymtheg o ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cynnig, roedd dau yn anghytuno, ac roedd un ymateb yn aneglur.

Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth gref i'r cynnig. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol y byddai gwreiddio'r protocol mewn deddfwriaeth yn gwella effeithlonrwydd trosglwyddo gofalwyr maeth o un darparwyr i'r llall. Tynnodd llawer sylw at y ffaith, er bod y protocol yn cynnig fframwaith gwerthfawr, fod ei weithrediad yn anghyson ar hyn o bryd ac yn aml yn cael ei lesteirio gan gyfyngiadau amser a diffyg ymwybyddiaeth.

Mae cefnogwyr y cynnig yn credu y gallai cefnogaeth ddeddfwriaethol helpu i fynd i'r afael ag oedi ac anghysondebau yn y broses drosglwyddo. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod cofnodion llawn yn cael eu trosglwyddo yn ystod y broses ac y dylid hwyluso’r gwaith o rannu gwybodaeth heb gost.

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon mewn nifer fach o’r ymatebion. Rhannodd un sefydliad brofiadau lle'r oedd trosglwyddiadau wedi arwain at faterion diogelu a materion sicrhau ansawdd oherwydd nad oedd yr asiantaeth flaenorol yn darparu digon o wybodaeth. Nododd un arall, er bod y protocol yn fuddiol, nad yw'n mynd i'r afael yn llawn â’r heriau sy'n codi pan fydd asiantaethau'n rhoi'r gorau i weithredu neu'n newid eu statws.

Ar ben hynny, datgelodd data arolwg gan un sefydliad maethu fod gwahaniaeth barn ymysg ei ymatebwyr: roedd hanner yn cefnogi'r cynnig, ac roedd y gweddill naill ai'n gwrthwynebu neu'n ansicr. Mae hyn yn awgrymu, er bod cefnogaeth eang i wreiddio'r protocol yn ddeddfwriaethol, bod angen clir hefyd am ganllawiau manylach a darpariaethau deddfwriaethol cynhwysfawr i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith mewn ffordd effeithiol a chyson.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r adborth a gafwyd yn tynnu sylw at werth ffurfioli arferion da i leihau oedi, gwella eglurder, a chefnogi canlyniadau gwell i blant a theuluoedd maeth. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch yr heriau wrth ei roi ar waith, rhannu gwybodaeth, a diogelu, ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r rhain drwy lunio canllawiau deddfwriaethol clir a deunyddiau ategol.

Wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y newidiadau deddfwriaethol yn ymarferol, yn gymesur ac yn gwella'r protocol presennol. Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd orau o gefnogi gwasanaethau maethu i roi'r gofynion newydd ar waith, gan gynnwys drwy hyfforddi, codi ymwybyddiaeth a monitro.

Ein nod yw cryfhau'r system faethu yng Nghymru drwy sicrhau bod trosglwyddiadau gofalwyr maeth yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion plant, yn cefnogi gofalwyr, ac yn cynnal safonau uchel o ofal ar draws pob darparwr.

**Cwestiwn 21: Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau gyda'r awgrymiadau sy'n cael eu gwneud?**

Cafwyd cyfanswm o un ymateb ar bymtheg i’r cwestiwn. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol am y cynnig i wreiddio Protocol Trosglwyddo Cymru mewn rheoliadau, gan ei weld fel cam tuag at fwy o gysondeb, effeithlonrwydd a thryloywder pan fydd gofalwyr maeth yn symud o un gwasanaeth i un arall. Tynnodd llawer sylw at y posibilrwydd y bydd prosesau’n llyfnach a chanlyniadau’n well i blant a gofalwyr, a oedd yn gryfder sylweddol yn y dull gweithredu yn eu barn nhw.

Ochr yn ochr â'r manteision hyn, nododd ymatebwyr heriau ymarferol y mae angen rhoi sylw iddynt. Y testun pryder mwyaf cyffredin oedd yr amserlen 15 diwrnod ar gyfer rhannu cofnodion, a theimlai rhai y gallai hyn fod yn anodd i ddarparwyr llai ac y gallai arwain at oedi yn ystod cyfnodau prysur. Roedd galwadau hefyd am ganllawiau clir ar GDPR a chydsyniad, er mwyn osgoi oedi neu ddehongli rheolau rhannu data mewn ffordd anghyson.

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd mecanweithiau gorfodi i sicrhau cydymffurfiad ar draws pob darparwr a gofynnwyd am eglurder ynghylch fformatau rhannu gwybodaeth a pha mor hawdd yw trosglwyddo archwiliadau diweddar (fel DBS, profion meddygol a geirdaon) i atal dyblygu ac oedi. Roedd ystyriaethau ariannol yn cael sylw amlwg, gydag awgrymiadau er mwyn mynd i'r afael ag anghydfodau posibl ynghylch lwfansau a ffioedd pan fydd gofalwyr yn trosglwyddo o un sector i’r llall. Rhai modelau ariannol tryloyw arfaethedig i liniaru cynnydd mewn costau ac i gynnal tegwch.

Er y codwyd pryderon ynghylch amrywiadau o ran ymarfer, sefydlogrwydd lleoliadau, a deinameg rhyng-ddarparwr fel “dwyn”, pwysleisiodd ymatebwyr y dylai'r protocol barhau i ganolbwyntio ar y plentyn, gan ddiogelu sefydlogrwydd a blaenoriaethu

buddiannau gorau plant. Yn gyffredinol, mae'r adborth yn adlewyrchu bod cefnogaeth gref i'r egwyddor safoni, ynghyd ag argymhellion ymarferol i wneud gweithredu'n effeithiol ac yn deg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch capasiti gweithredol, diogelu data, a’r amrywiaeth o fodelau gwasanaeth. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ofalus wrth i ni gyflwyno'r cynigion i sicrhau eu bod yn ymarferol, yn gymesur ac yn cynnwys pob gwasanaeth maethu. Bydd diogelu sefydlogrwydd lleoliadau a sicrhau bod y broses yn parhau i ganolbwyntio ar y plentyn yn parhau i fod yn ganolog i'r newidiadau.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu canllawiau clir i gefnogi'r broses weithredu, gan gynnwys ynghylch rhannu cofnodion, cydsyniad a gorfodi.

Bydd yr adborth hwn yn allweddol wrth lunio ein dull gweithredu, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector i sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol yn effeithiol, yn ymarferol ac yn canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a gofalwyr.

**Cwestiwn 22: Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fanteision) y gallai'r newidiadau arfaethedig eu cael ar wahanol sefydliadau neu sectorau ym maes gofal cymdeithasol?**

Cafwyd cyfanswm o un ymateb ar bymtheg i'r cwestiwn hwn, ac mae'r adborth yn adlewyrchu agwedd gadarnhaol ar y cyfan, wedi'i chymedroli gan bryderon ymarferol. Teimlai llawer o'r cyfranwyr y byddai'r newidiadau'n arwain at fwy o effeithlonrwydd, lleihau dyblygu ac oedi, a galluogi plant i gael lleoliadau’n fwy cyflym. Ystyriwyd bod y symleiddio hwn yn fuddiol i ofalwyr a phlant a hefyd i sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli pontio. Croesawyd protocol statudol oherwydd y posibilrwydd y byddai’n dod â chysondeb a thryloywder ledled Cymru, gan helpu i safoni arferion a lleihau gwahaniaethau rhanbarthol.

Roedd disgwyl i ofalwyr maeth elwa o fwy o eglurder a sicrwydd, gyda rhai ymatebwyr yn nodi y gallai gofalwyr sy'n teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi fod yn fwy tebygol o drosglwyddo pe bai’r system yn un symlach. Gallai hyn, yn ei dro, annog sefydliadau i wella eu hymdrechion i gefnogi a chadw gofalwyr maeth. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch y goblygiadau ariannol, yn enwedig i awdurdodau lleol. Roedd rhai'n ofni y gallai prosesau pontio cyflymach arwain at gostau uwch iddynt os bydd gofalwyr yn symud at ddarparwyr drutach, a thynnodd eraill sylw at yr angen i fuddsoddiad mewn hyfforddiant, systemau a chydymffurfiaeth er mwyn bodloni disgwyliadau rheoleiddio newydd.

Nodwyd risgiau hefyd, gan gynnwys materion posibl o safbwynt cyfreithiol ac enw da os nad yw terfynau amser neu ofynion rhannu data yn cael eu bodloni. Roedd rhybudd, os na chaiff ei roi ar waith yn ofalus, y gallai'r newidiadau ddwysáu tensiynau rhwng gwahanol rannau o'r sector, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio i

fodel nid-er-elw. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd monitro patrymau trosglwyddo a sicrhau bod taliadau i ofalwyr yn deg, gan awgrymu y gallai gwahaniaethau ddod i'r amlwg heb oruchwyliaeth ofalus.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y newidiadau arfaethedig yn gam tuag at ymarfer mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ond byddai eu llwyddiant yn dibynnu ar ganllawiau clir, gweithredu cadarn, a chefnogaeth barhaus i'r holl randdeiliaid dan sylw.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddorion sy'n sail i'r cynigion, yn enwedig y pwyslais ar wella effeithlonrwydd, cysondeb a chanlyniadau i blant a gofalwyr. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n cefnogi eglurder, tegwch a thryloywder i'r holl randdeiliaid.

Rydym yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd ynghylch pwysau ariannol, gofynion gweinyddol, a'r angen am arweiniad a chymorth cadarn. Bydd yr ystyriaethau hyn yn llywio'r gwaith o gynllunio adnoddau gweithredu a threfniadau pontio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gydweithio â'r sector i sicrhau bod y dull gweithredu terfynol yn adlewyrchu anghenion plant, gofalwyr a darparwyr, ac yn cefnogi'r uchelgais ehangach i ddileu elw o ofal cymdeithasol i blant yng Nghymru.

**Cael gafael ar y lwfans maethu uwch (ffi)**

**Cwestiwn 23: A yw'r paragraffau ychwanegol a awgrymir yn rhoi eglurder ynghylch sut y gall y gwahanol fathau o ofalwyr maeth gael y lwfans maethu uwch?**

Cafwyd cyfanswm o bedwar ymateb ar bymtheg i'r cwestiwn dan sylw yn yr ymgynghoriad. O'r rhain, roedd un ar ddeg o ymatebwyr yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, ac roedd wyth yn anghytuno. Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr yn croesawu cynnwys canllawiau ar lwfansau maethu uwch yn y Cod Ymarfer, gan ei weld fel cam tuag at fwy o dryloywder a thegwch. Roedd nifer yn teimlo bod y geiriad arfaethedig yn cynnig mwy o eglurder ac y gallai helpu gofalwyr i ddeall eu hawliau'n well. Nododd rhai ei fod yn cyd-fynd ag arferion presennol ac yn atgyfnerthu modelau sefydledig, yr oedd ganddynt farn gadarnhaol amdanynt.

Fodd bynnag, roedd pryderon o hyd ynghylch cysondeb a chyllid. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai gadael i awdurdodau lleol unigol fod yn gyfrifol am y meini prawf cymhwysedd barhau ag amrywiadau a chreu dryswch, yn enwedig i ofalwyr sy'n berthnasau. Codwyd goblygiadau ariannol hefyd, gyda rhai'n rhybuddio y gallai cymhwysedd ehangach gynyddu costau heb gymorth ychwanegol. Mynegodd rhai ymatebwyr siom nad yw'r cynnig yn cyflwyno fframwaith ffioedd

cenedlaethol, y mae llawer yn credu ei fod yn hanfodol i sicrhau tegwch a chynaliadwyedd.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor o ddarparu mwy o eglurder yn y Cod ynghylch cael gafael ar lwfansau maethu uwch. Roedd ymatebwyr yn ystyried bod hwn yn gyfle i gryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr maeth a chynyddu’r gallu i gadw gofalwyr maeth, cysondeb, a sicrhau bod ystyriaethau ariannol yn cael sylw.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o safbwyntiau a rannwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac yn cydnabod yr ystyriaeth drylwyr a roddir i'r paragraffau arfaethedig ar gael gafael ar y lwfans maethu uwch. Mae'r ymatebion wedi atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau clir, teg a thryloyw i gefnogi gofalwyr maeth, ni waeth beth fo'u llwybr at faethu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i wella cysondeb o ran taliadau maethu ar yr un pryd â chydnabod yr angen am hyblygrwydd o ran sut mae gwasanaethau'n gweithredu'n lleol. Rydym yn deall ei bod yn hanfodol sicrhau eglurder i ofalwyr a gwasanaethau o ran terminoleg a disgwyliadau, ac rydym yn pwyso a mesur yn ofalus ar y ffordd orau o gyflawni hyn o fewn fframwaith y Cod Ymarfer.

Mae'r ymgynghoriad wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar yr ystyriaethau ymarferol ac ariannol sy'n sail i drefniadau maethu. Y cyfraniadau hyn fydd yn gosod sail i'n gwaith parhaus i gryfhau canllawiau a mecanweithiau cymorth, gan sicrhau bod y lwfans maethu uwch yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n deg, yn gynaliadwy ac yn ymateb i anghenion plant a gofalwyr ledled Cymru.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni fireinio'r dull polisi, gyda'r bwriad o hyrwyddo mwy o dryloywder a chydlyniant mewn cefnogaeth i ofalwyr maeth.

**Cwestiwn 24: A yw'r gwelliant yn darparu fframwaith clir ar gyfer darparu cymorth i ofalwyr maeth sy'n berthnasau a gymeradwywyd dros dro?**

Cafwyd dau ymateb ar bymtheg i'r gwelliant arfaethedig ynghylch gofalwyr maeth sy’n berthnasau a gymeradwywyd dros dro. O'r rhain, roedd tri ar ddeg o ymatebwyr yn cytuno, roedd tri yn anghytuno, ac roedd un ymateb yn aneglur.

Roedd y rheini a oedd o blaid yn teimlo bod y gwelliant yn cynnig fframwaith clir ar gyfer cefnogi gofalwyr maeth sy'n berthnasau a gymeradwywyd dros dro. Roeddent yn tynnu sylw at fanteision posibl fel hyrwyddo cysondeb ar draws rhanbarthau, gwella eglurder i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol, a chynyddu sefydlogrwydd i blant. Teimlai rhai y byddai'n annog ymrwymiad gan ofalwyr sy'n berthnasau ac yn cefnogi gwell trefn weinyddol.

Fodd bynnag, mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon neu roeddent yn anghytuno. Rhai o'r themâu cyffredin oedd diffyg eglurder a thryloywder yn y gwelliant, yn enwedig o ran meini prawf cymhwysedd a chyllid. Nododd llawer y gallai gadael i awdurdodau unigol wneud penderfyniadau heb osod safonau gofynnol arwain at anghysondeb a dryswch. Soniwyd yn aml am y pwysau ariannol ar awdurdodau lleol, gyda rhai'n awgrymu y byddai'n anodd gwneud newid ystyrlon heb gyllid ychwanegol. Roedd pryderon hefyd y gallai'r gwelliant wneud i ofalwyr droi eu cefn ar drefniadau eraill yn anfwriadol, megis gwarchodaeth arbennig, a allai wrthdaro â nodau polisi ehangach.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymgynghoriad wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar y gwelliant arfaethedig mewn perthynas â gofalwyr maeth sy'n berthnasau a gymeradwyir dros dro. Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r adborth a ddaw i law wrth i ni fireinio'r polisi a'i weithrediad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau eglurder, cysondeb a thegwch ledled Cymru, a byddwn yn edrych ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn perthynas â chymhwysedd, cyllid ac aliniad â threfniadau gofal ehangach.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynnal adolygiad o'r lwfansau a ddarperir i ofalwyr maeth. Mae'r gwaith hwn yn gam cyntaf hollbwysig a rhaid ei gwblhau cyn ystyried unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â ffioedd. Mae'n hanfodol sefydlu dull clir a chynaliadwy o ymdrin â lwfansau er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â ffioedd yn cael eu hadeiladu ar sylfaen deg a chydlynol.

Bydd ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau, yn parhau i lywio ein gwaith wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar gefnogi gofalwyr yn effeithiol a hyrwyddo sefydlogrwydd i blant.

**Cwestiwn 25: Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fanteision) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer eu cael ar wahanol sefydliadau neu sectorau ym maes gofal cymdeithasol?**

Cafwyd cyfanswm o un ymateb ar bymtheg i'r cwestiwn hwn. Mae llawer o'r farn y gallai'r newidiadau arfaethedig arwain at oblygiadau ariannol sylweddol, yn enwedig i awdurdodau lleol. Codwyd pryderon ynghylch costau uwch pe bai cymhwysedd ar gyfer lwfansau uwch yn cael ei ehangu, yn enwedig i gynnwys gofalwyr sy'n berthnasau. Nododd nifer o ymatebion y gallai'r newidiadau hyn roi straen ar gyllidebau sydd eisoes yn dynn heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Tynnodd rhai sefydliadau sylw at y baich gweinyddol a allai godi, gan gynnwys yr angen i ddiwygio gweithdrefnau asesu, diweddaru systemau talu, hyfforddi staff, a rheoli llwyth gwaith cynyddol y panel. Dywedodd eraill fod geiriad presennol y cynnig yn amwys, a allai gyfyngu ar ei effaith ymarferol oni bai fod canllawiau cliriach yn cael eu darparu.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r adborth yn adlewyrchu ymrwymiad cryf ar draws y sector i sicrhau bod cymorth i ofalwyr yn ystyrlon ac yn gynaliadwy, ac mae wedi tynnu sylw at nifer o ystyriaethau pwysig a fydd yn sail i'n syniadau yn y dyfodol.

Mae'n amlwg bod y newidiadau arfaethedig wedi ysgogi myfyrio ar y goblygiadau ehangach o ran darparu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â phwysau ariannol a chapasiti gweithredol. Nid yw'r rhain yn heriau newydd, ond maent yn rhai sy'n esblygu, ac rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw mynd i'r afael â nhw gyda gofal a sensitifrwydd.

Rydym hefyd yn nodi'r galwadau am fwy o eglurder yn y cynigion. Er mai'r bwriad y tu ôl i'r newidiadau yw cryfhau'r gefnogaeth i'r rhai sy'n gofalu am blant, rydym yn deall y bydd y ffordd y caiff hyn ei fynegi a'i roi ar waith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Wrth i ni symud ymlaen, rydym wedi ymrwymo o hyd i ymgysylltu'n adeiladol â phartneriaid a rhanddeiliaid. Bydd y ddealltwriaeth a rennir drwy'r broses hon yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio cyfeiriad datblygiad polisi yn y dyfodol, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu dyheadau'r sector a'r realiti a wynebir ar lawr gwlad.

## Y Mecanwaith Adolygu Annibynnol - newidiadau rheoleiddio arfaethedig

### Cwestiwn 26: Ydych chi'n credu y bydd unrhyw ganlyniadau annisgwyl yn deillio o wneud y newidiadau arfaethedig i Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010?

Cafwyd cyfanswm o bedwar ymateb ar ddeg. O'r rhain, roedd un ymatebydd yn cytuno y bydd canlyniadau annisgwyl, gan nodi risgiau posibl, roedd pum ymatebydd yn anghytuno ac nid oeddent yn credu y byddai unrhyw effeithiau disgwyliedig, a darparodd wyth ymatebydd sylwadau naratif manwl heb nodi safbwynt clir, ond fe wnaethant godi ystyriaethau sy'n berthnasol i'r cwestiwn.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder y gallai caniatáu mynediad at y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) yn gynharach, yn benodol ar ôl Rhan 1 yr asesiad maethu, danseilio pwrpas y gwiriadau cynnar. Roeddent yn teimlo y gallai hyn beryglu barn broffesiynol a chynyddu'r baich ar wasanaethau drwy sbarduno asesiadau llawn heb fod angen.

Roedd eraill yn croesawu'r newidiadau arfaethedig ar gyfer gwella eglurder a chysondeb cyfreithiol, yn enwedig gallu'r panel IRM i ofyn am adroddiad llawn pan mai dim ond un byr sydd wedi'i roi. Ystyriwyd bod hyn yn mynd i'r afael â bwlch yn y broses bresennol ac yn sicrhau bod y rheoliadau’n cyd-fynd â’r pwerau deddfwriaethol diweddaraf.

Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at ganlyniadau anfwriadol posibl fel mwy o lwyth gwaith gweinyddol, oedi wrth benderfynu ar leoliadau, ac anghysondebau o ran canlyniadau adolygiadau o un rhanbarth i’r llall. Roedd galwadau am feini prawf cliriach ynghylch pryd y dylid gofyn am asesiad llawn er mwyn osgoi gwaith diangen.

Nododd rhai cyfranwyr nad oes llawer o ofalwyr yn ymwybodol o'r mecanwaith adolygu annibynnol, ac awgrymodd y byddai'n fuddiol cael gofynion statudol i roi gwybod i unigolion am y mecanwaith adolygu annibynnol a'i amserlenni.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch cymhlethdod rhoi'r newidiadau ar waith, gan gynnwys yr angen am ganllawiau, hyfforddiant a systemau wedi'u diweddaru. Cafwyd awgrymiadau i atgyfnerthu rôl gweithdrefnau cwyno mewnol a goruchwyliaeth reoleiddiol cyn i achosion gyrraedd y mecanwaith adolygu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at amryw o safbwyntiau ac ystyriaethau o bob rhan o'r sector. Mae'r cyfraniadau hyn yn adlewyrchu cymhlethdod y materion dan sylw a phwysigrwydd sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio yn gymesur ac yn effeithiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y safbwyntiau hyn wrth iddo barhau i ddatblygu polisi. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod y Mecanwaith Adolygu Annibynnol yn parhau i weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi tegwch, tryloywder a chysondeb, gan gydnabod y realiti ymarferol sy'n wynebu gwasanaethau ac unigolion.

**Cwestiwn 27: Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fanteision) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau eu cael ar wahanol sefydliadau neu sectorau ym maes gofal cymdeithasol?**

Cafwyd tri ymateb ar ddeg i'r cwestiwn hwn. Ysgogodd y newidiadau arfaethedig amrywiaeth o ymatebion o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol. Roedd llawer o gyfranwyr yn cydnabod y posibilrwydd o gael trefn fwy teg a thryloyw, yn enwedig o ran sut gallai paneli Mecanwaith Adolygu Annibynnol ddelio ag achosion. Roedd rhai o'r farn bod caniatáu i baneli ofyn am asesiadau maethu llawn ar ôl gwrthod Rhan 1 yn ffordd o sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth gyflawn, a allai wella canlyniadau i ymgeiswyr a lleihau nifer yr anghydfodau.

Fodd bynnag, roedd y newid hwn hefyd yn codi pryderon ynghylch y goblygiadau gweithredol ac ariannol. Nododd nifer o ymatebion y gallai mynnu adroddiadau llawn gynyddu llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol a thimau cyfreithiol, gan efallai roi straen ar adnoddau a thanseilio barn broffesiynol. Roedd y baich gweinyddol ychwanegol yn thema a gododd dro ar ôl tro, gyda rhai'n awgrymu y gallai'r newidiadau arwain at aneffeithlonrwydd neu asesiadau diangen nad ydynt yn arwain yn y pen draw at fwy o ofalwyr cymeradwy.

Roedd eraill o'r farn bod y newidiadau yn fuddiol i raddau helaeth, gan nodi prosesau cliriach, ansawdd gwasanaeth gwell, a dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Fodd bynnag, cafodd y manteision hyn eu tymheru gan y gydnabyddiaeth y gallai costau trosiannol a heriau strategol godi, sydd angen eu cynllunio'n ofalus a buddsoddi ynddynt i sicrhau llwyddiant hirdymor.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y newidiadau'n fach ac yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar adnoddau, gan werthfawrogi'r eglurder ychwanegol i ymarferwyr.

Mynegodd rhai cyfranwyr amheuaeth ynghylch gwerth ymarferol y newidiadau, gan nodi bod y mecanweithiau presennol eisoes yn caniatáu gofyn am adroddiadau llawn. Teimlai eraill mai bach iawn fyddai'r effaith neu y gellid ymdopi ag ef, gydag angen am addasiadau gweinyddol cymharol fach.

Yn gyffredinol, croesawyd y newidiadau arfaethedig ar y cyfan oherwydd eu bwriad i wella tegwch a chysondeb, roedd galw clir am weithredu ystyriol i gydbwyso manteision â'r costau a'r pwysau posibl ar sefydliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bwriad y newidiadau arfaethedig yw cynyddu tegwch, tryloywder a chysondeb mewn prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â maethu. Er bod croeso cyffredinol i'r newidiadau hyn, rydym yn cydnabod bod pryderon ynghylch y posibilrwydd y bydd mwy o bwysau gweinyddol a gweithredol, yn enwedig lle gallai fod angen asesiadau ychwanegol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal barn broffesiynol a sicrhau bod unrhyw lwyth gwaith ychwanegol yn gymesur ac yn hawdd ei reoli. O'r herwydd, byddwn yn ystyried y ffordd orau o gefnogi sefydliadau i roi'r newidiadau hyn ar waith, gan gynnwys drwy ganllawiau clir a chynllunio trosiannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn effeithiol ac yn ymarferol.

**Cyflwyno Cofrestr Gofalwyr Maeth yng Nghymru**

**Cwestiwn 28: Beth yw eich barn am gael cofrestr genedlaethol gofalwyr maeth yng Nghymru?**

Cafwyd pedwar ymateb ar hugain i'r ymgynghoriad ar y cynnig i gael cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth yng Nghymru a ddatgelodd sbectrwm eang o safbwyntiau, gan adlewyrchu optimistiaeth am ei botensial ac ymdeimlad phetrusgar ynghylch ei weithredu.

Roedd llawer o ymatebwyr yn gweld gwerth yn y syniad o gael cofrestr genedlaethol, yn enwedig o ran ei photensial i wella tryloywder a chydlyniant ar draws y system faethu. Ystyriwyd bod cofnod canolog yn ffordd o gefnogi gwell trefn o gynllunio lleoliadau, symleiddio'r broses o drosglwyddo o un darparydd maethu i'r llall, a rhoi mwy o amlygrwydd i ofalwyr maeth yn y rhwydwaith gofal ehangach.

Roedd cred bendant hefyd y gallai cofrestr o'r fath gyfrannu at wella arferion diogelu. Drwy ddarparu mecanwaith i olrhain statws cymeradwyo a dad-gofrestriadau blaenorol, gallai helpu i sicrhau lleoliadau mwy diogel i blant. Ar ben hynny, roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at y cyfle i ddefnyddio'r gofrestr i gasglu data a allai lywio'r gwaith o gynllunio a recriwtio yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae angen gofalwyr maeth arbenigol.

Roedd y syniad o gydnabyddiaeth broffesiynol yn thema arall a gododd dro ar ôl tro. Ystyriwyd bod cofrestr yn ffordd o gydnabod rôl gofalwyr maeth yn ffurfiol, a allai gynyddu hyder y cyhoedd a helpu gofalwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy.

Er gwaethaf y manteision posibl, mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch goblygiadau ymarferol cyflwyno cofrestr. Thema gyffredin oedd y perygl o ychwanegu biwrocratiaeth ddiangen at system sydd eisoes dan bwysau. Roedd pryderon y gallai'r gofrestr ddyblygu prosesau a chronfeydd data presennol, gan arwain at aneffeithlonrwydd yn hytrach na gwelliannau.

Tynnwyd sylw hefyd at ddiogelu data a phreifatrwydd fel materion hollbwysig. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy’n cael ei chadw ar y gofrestr yn ddiogel ac yn cael ei defnyddio'n briodol. Codwyd cwestiynau ynghylch pwy fyddai'n rheoli'r gofrestr, sut y byddai'n cael ei diweddaru, a faint o fynediad fyddai gan wahanol bartïon iddi.

Rhybuddiodd rhai ymatebion y gallai'r gofrestr arwain yn anfwriadol at fwy o leoliadau y tu allan i'r ardal, gan amharu o bosibl ar gyswllt plant â'u cymunedau. Mynegodd eraill bryder y gallai cofrestru gorfodol atal unigolion rhag dod yn ofalwyr maeth, yn enwedig os oedd yn golygu costau ychwanegol neu feichiau gweinyddol.

Ar draws yr ymatebion, roedd galwad glir am wybodaeth fanylach am sut byddai'r gofrestr yn gweithredu. Rhai o’r cwestiynau allweddol oedd a fyddai cofrestru'n wirfoddol neu'n orfodol, pa ddata fyddai'n cael ei gynnwys, a sut byddai gofalwyr sy'n berthnasau yn cael eu trin o fewn y system.

Teimlai llawer y dylid cynnal dadansoddiad cost a budd llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, a’i bod yn hanfodol cael ymgynghori pellach, yn enwedig gyda gofalwyr maeth eu hunain, i sicrhau bod y gofrestr yn diwallu anghenion y rhai y bwriedir iddi eu cefnogi.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymatebion wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar fanteision canfyddedig cael cofrestr genedlaethol a’r heriau posibl. Maent wedi tynnu sylw at ystyriaethau allweddol o ran tryloywder, diogelu, cydnabod gofalwyr maeth, a'r goblygiadau ymarferol i'r rheini sy'n gweithio yn y system faethu.

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn yn y dyfodol yn gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cael eu llywio gan brofiadau gofalwyr maeth a'r rhai sy'n eu cefnogi. Byddwn yn parhau i edrych ar y materion a godwyd drwy'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ymarferoldeb, pwrpas a modelau posibl ar gyfer gwella’r drefn o rannu gwybodaeth a chymorth ar draws y gymuned faethu.

Bydd rhagor o ymgysylltu'n cael ei wneud i sicrhau bod unrhyw ddull a ddefnyddir yn cyd-fynd â'r nodau ehangach o ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau maethu yng Nghymru. Mae

hyn yn cynnwys ystyried y ffordd orau o gryfhau systemau a phrosesau presennol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd drwy'r ymgynghoriad.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn ac yn adlewyrchu blaenoriaethau'r rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â maethu.

**Cwestiwn 29**: **Ydych chi'n meddwl y gallai cofrestr faethu gyflawni'r amcanion canlynol:**

- **Statws uwch**
- **Ei gwneud hi'n haws i ofalwyr maeth symud o un darparwr i'r llall**
- **Mesurau diogelu cadarn**
- **Data cenedlaethol a chymorth i ragweld y galw am ofalwyr maeth a'r cyflenwad ohonynt.**

Cafwyd pedwar ymateb ar bymtheg yn mynegi safbwyntiau cymysg ynghylch a allai cofrestr gofalwyr maeth gyflawni'r amcanion a fwriadwyd. Teimlai rhai, er bod gwerth i'r syniad, y byddai ei lwyddiant yn dibynnu'n helaeth ar sut y câi ei toi ar waith. Roedd cytundeb cyffredinol y gallai cofrestr gefnogi'r gwaith o gasglu a rhagweld data'n well, yn enwedig pe bai'n cael ei diweddaru a'i defnyddio'n gyfrifol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch dyblygu gyda'r systemau presennol a'r posibilrwydd y gallai'r gofrestr fod yn fiwrocrataidd.

O ran gwella statws gofalwyr maeth, teimlai rhai y gallai cofrestr helpu gofalwyr maeth i gael eu gweld yn fwy fel gweithwyr proffesiynol, yn enwedig os yw'n gysylltiedig â fframweithiau dysgu a datblygu. Roedd eraill yn amheus, gan awgrymu bod statws proffesiynol yn cael ei siapio fwy gan ddiwylliant, cymwysterau a chydnabyddiaeth na thrwy gofrestru yn unig.

Roedd cludadwyedd yn faes trafod arall. Er bod rhai'n credu y gallai cofrestr helpu i'w gwneud yn haws i ofalwyr maeth symud o un gwasanaeth i'r llall, nododd eraill fod y ddeddfwriaeth bresennol yn gofyn am ailasesiadau llawn waeth beth fo'u profiad blaenorol. Roedd pryderon y gallai cofrestr roi camargraff nad oedd angen parhau i ailasesu, a allai arwain at gamddealltwriaeth a risgiau.

Ar y cyfan, roedd diogelu'n cael ei ystyried yn faes lle gallai cofrestr ychwanegu gwerth, yn enwedig o ran nodi unigolion a oedd wedi cael eu dadgofrestru o'r blaen neu a oedd yn ymwneud â phryderon diogelu. Fodd bynnag, teimlai rhai bod y gwiriadau a'r prosesau presennol eisoes yn darparu mesurau diogelu cadarn, ac efallai na fyddai cofrestr yn gwella'r rhain yn sylweddol.

Cydnabuwyd yn eang y potensial i gofrestr wella data cenedlaethol a rhagolygon. Nododd ymatebwyr fod y data presennol yn dameidiog ac yn anghyson, ac y gallai system ganolog helpu i ganfod bylchau, gwella'r broses baru, a chefnogi cynllunio strategol. Fodd bynnag, roedd pryderon ymarferol hefyd ynghylch pa mor gymhleth yw cynnal data cywir ac amserol, yn enwedig ynghylch swyddi gwag a chymeradwyaethau.

Yn gyffredinol, er bod optimistiaeth gofalus ynghylch manteision posibl cofrestr faethu, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr yr angen am gynllunio gofalus, cysondeb deddfwriaethol clir, ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid i sicrhau ei bod yn cyflawni gwelliannau ystyrlon heb ganlyniadau anfwriadol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r adborth a gafwyd yn tynnu sylw at y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno cofrestr. Er bod y manteision posibl yn cael eu cydnabod mewn meysydd fel casglu data, diogelu a chefnogi symudedd gofalwyr maeth, mae'n amlwg bod yn rhaid ystyried unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn ofalus i sicrhau ei fod yn ategu systemau presennol ac nad yw'n creu cymhlethdod diangen.

Rydym wedi ymrwymo i archwilio sut gallai cofrestr gefnogi cynllunio strategol a gwella cysondeb ar draws gwasanaethau maethu, gan gydnabod pwysigrwydd cynnal prosesau asesu a diogelu cadarn ar yr un pryd. Y safbwyntiau a rannwyd fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau ymhellach, gan gynnwys ystyried goblygiadau deddfwriaethol, gweithredol ac o ran adnoddau.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod profiadau ac arbenigedd y rheini sy'n gweithio yn y sector maethu ac ochr yn ochr ag ef yn siapio unrhyw gynigion. Ein nod o hyd yw cryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr maeth a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn gofal ledled Cymru.

**Cwestiwn 30: Beth ydych chi’n ystyried yw anfanteision cyflwyno cofrestr faethu yng Nghymru?**

Cafwyd ugain o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a oedd yn cynnig amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch anfanteision posibl sefydlu cofrestr faethu yng Nghymru. Pryder cyffredin oedd y gallai cofrestr o'r fath gyflwyno biwrocratiaeth ddiangen i sector sydd eisoes yn cael ei reoleiddio'n drwm. Teimlai ymatebwyr y gallai ddyblygu systemau presennol a dod yn ymarfer cydymffurfio yn hytrach nag yn adnodd ystyrlon, gydag ansawdd data anghyson a budd ymarferol cyfyngedig.

Roedd cost yn fater arwyddocaol arall. Codwyd cwestiynau ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am ariannu'r gofrestr, ac roedd pryderon y gallai gofalwyr maeth, darparwyr, neu awdurdodau lleol orfod ysgwyddo'r baich ariannol. Ystyriwyd y gallai'r gwaith gosod a'r gwaith cynnal a chadw parhaus, gan gynnwys seilwaith TG a staffio, fod yn ddrud ac yn drwm ar adnoddau.

Soniwyd yn aml am ddiogelu data a phreifatrwydd. Roedd pryderon pendant ynghylch y risgiau o gadw gwybodaeth bersonol sensitif ar system ganolog, yn enwedig pe bai’n cael ei chamreoli neu'n destun tor diogelwch data. Ofnai rhai y gallai’r gofrestr gael ei defnyddio mewn ffordd amhriodol, er enghraifft i dargedu gofalwyr maeth i'w recriwtio, a phwysleisiwyd pa mor bwysig oedd diogelu gofalwyr a gwybodaeth am blant.

Tynnwyd sylw hefyd at yr effaith bosibl ar recriwtio a’r gallu i gadw staff. Gallai haenau ychwanegol o reoleiddio atal pobl rhag dod yn ofalwyr maeth neu wneud i ofalwyr maeth presennol adael y system. Roedd pryderon y gallai'r gofrestr danseilio'r fframweithiau asesu presennol, sy'n cael eu gwerthfawrogi o ran pa mor drylwyr ydynt a'u dealltwriaeth o amgylchiadau gofalwyr unigol.

Roedd cymhlethdod gweithredol yn fater arall. Codwyd cwestiynau ynghylch pwy fyddai'n rheoli'r gofrestr, sut y byddai'n cael ei diweddaru a’i chaw’n gywir, ac a yw’r sector yn barod am y fath newid. Heb gefnogaeth ddeddfwriaethol glir a chefnogaeth ar draws y sector, mae’n bosibl y byddai’r gofrestr yn cael ei rhoi ar waith mewn modd anghyson a allai beri problemau.

Er bod rhai ymatebwyr yn cydnabod manteision posibl fel gwell goruchwyliaeth a mwy o gysondeb, roedd y teimlad cyffredinol yn un petrusgar. Roedd galwadau am gynllunio gofalus, ei roi ar waith fesul cam, a chyfathrebu clir i sicrhau y byddai unrhyw gofrestr a gaiff ei chyflwyno yn effeithiol, yn ddiogel ac nad yw'n niweidiol i'r gymuned faethu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau o ran polisi maethu yn y dyfodol yn gymesur, yn wybodus ac yn sensitif i realiti ymarfer. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio â rhanddeiliaid i edrych ar ddichonoldeb cofrestr maethu, gan ystyried y pryderon a godwyd a sicrhau bod unrhyw ddull gweithredu wedi'i gynllunio i gefnogi'r sector maethu, nid ei lesteirio. Bydd rhagor o waith ymgysylltu'n cael ei wneud i sicrhau bod unrhyw gynigion yn cael eu llunio ar sail profiadau ac arbenigedd y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â maethu yng Nghymru.

**Cwestiwn 31: Os cyflwynir cofrestr, pa gorff canolog yn eich barn chi allai gynnal y gofrestr?**

Cafwyd un ymateb ar hugain i'r cwestiwn hwn a oedd yn dangos consensws eang ynghylch yr angen i gael corff canolog i gynnal y gofrestr, er bod safbwyntiau'n amrywio ynghylch pwy ddylai'r corff hwnnw fod a sut y dylai weithredu. Awgrymodd llawer o gyfranwyr mai Gofal Cymdeithasol Cymru yw'r sefydliad mwyaf priodol, gan gyfeirio at ei seilwaith presennol, ei brofiad o gofrestru proffesiynol, a’i arbenigedd cyfreithiol. Cynigiodd eraill Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu Lywodraeth Cymru, gan dynnu sylw at eu rolau rheoleiddio a'u gallu i oruchwylio. Ar ben hynny, awgrymwyd Maethu Cymru ac AFKA Cymru hefyd, gan adlewyrchu eu gwybodaeth benodol am y sector a'u hymgysylltiad â gwasanaethau maethu a mabwysiadu.

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd annibyniaeth ac ymddiriedaeth. Pwysleisiodd ymatebwyr fod yn rhaid i'r corff fod yn ddiduedd, heb ei ariannu gan awdurdodau lleol na darparwyr preifat, a’i fod yn gallu diogelu data sensitif. Mynegwyd pryderon ynghylch gwrthdaro posibl rhwng buddiannau a'r angen am lywodraethu data a seiberddiogelwch cadarn. Roedd rhai cyfranwyr yn dadlau yn

erbyn rhoi contractau allanol i sefydliadau trydydd parti, yn enwedig y rheini sydd â modelau cyllido sy'n seiliedig ar aelodaeth.

Pwysleisiodd nifer o’r ymatebwyr yr angen am adnoddau digonol i gefnogi’r gwaith o ddatblygu a chynnal y gofrestr. Roedd cydnabyddiaeth y gallai cyrff presennol fod heb y capasiti i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn heb gyllid a staff ychwanegol.

Roedd rhai gofalwyr maeth a sefydliadau yn eiriol dros fodel a oedd yn dyrchafu statws proffesiynol gofalwyr maeth, gan awgrymu tebygrwydd â systemau cofrestru gofal iechyd.  Roedd y syniadau'n cynnwys hyfforddiant wedi'i achredu'n genedlaethol, gwneud penderfyniadau canolog ar ddadgofrestru, a chynrychiolaeth o ofalwyr maeth yn y corff llywodraethu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Er nad oedd cytundeb unfrydol ar un ateb, roedd y naratif yn dangos bod yn well o lawer adeiladu ar strwythurau presennol yn hytrach na chreu endid newydd. Yr ystyriaethau cyffredinol oedd llywodraethu, annibyniaeth, diogelwch a chynaliadwyedd, gydag awydd clir i sicrhau bod y gofrestr yn diwallu anghenion gweithredol ac yn gydnabyddiaeth broffesiynol o ofalwyr maeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r adborth yn dangos cydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd sefydlu corff canolog i ddal cofrestr o'r fath, pe bai'n cael ei chyflwyno. Nodwn y pwyslais a roddir ar sicrhau bod yn rhaid i unrhyw gorff sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon weithredu'n annibynnol, yn dryloyw ac yn ddidwyll. Tynnwyd sylw'n gyson at yr angen am lywodraethu data cadarn, seiberddiogelwch a goruchwyliaeth ddiduedd.

Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch capasiti ac adnoddau, a phwysigrwydd sicrhau bod unrhyw sefydliad sy’n ysgwyddo’r cyfrifoldeb hwn yn cael ei gefnogi'n ddigonol i'w gyflawni'n effeithiol. Roedd y posibilrwydd i adeiladu ar y seilwaith a'r arbenigedd presennol yn ystyriaeth a oedd yn codi dro ar ôl tro, ochr yn ochr â'r awydd i osgoi dyblygu a chymhlethdod diangen.

Yn ogystal, rydym yn ymwybodol o'r dyheadau a fynegwyd ynghylch gwella statws proffesiynol gofalwyr maeth. Bydd y safbwyntiau hyn yn cyfrannu at edrych ymhellach sut gallai cofrestr gyfrannu at gydnabyddiaeth, cysondeb ac ansawdd ar draws y sector maethu.

Bydd Llywodraeth Cymru’n parhau i ystyried y safbwyntiau hyn yn ofalus fel rhan o'r broses ehangach o ddatblygu polisi. Rydym wedi ymrwymo o hyd i gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod unrhyw drefniadau yn y dyfodol yn gymesur, yn gynaliadwy ac er budd gorau plant, gofalwyr a gwasanaethau ledled Cymru.

## Cynllun Cymorth Gwarcheidwaeth Arbennig - newidiadau rheoleiddio arfaethedig

### Cwestiwn 32: Ydych chi'n meddwl y bydd yn fuddiol cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau lleol/gwasanaethau ddefnyddio templedi'r cynllun cymorth ac y bydd yn cefnogi dull gweithredu cyson ar gyfer teuluoedd ledled Cymru?

Cafwyd cyfanswm o ugain ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd dau ar bymtheg yn cefnogi'r cynnig, roedd un yn anghytuno, ac roedd un ymateb yn aneglur.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau lleol a gwasanaethau ddefnyddio templedi'r cynllun cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig. Ystyriwyd bod hyn yn ffordd o hyrwyddo mwy o gysondeb, tegwch ac eglurder yn y ddarpariaeth cymorth ledled Cymru. Nododd nifer fod y templedi eisoes yn cael eu defnyddio a'u bod wedi cael eu datblygu drwy ymgynghori eang, gan gynnwys mewnbwn gan ymarferwyr ac academyddion. Tynnwyd sylw at eu cludadwyedd o un awdurdod lleol i'r llall fel mantais allweddol, gan helpu i sicrhau parhad gofal a lleihau dyblygu.

Nododd ymatebwyr hefyd y posibilrwydd y byddai templedi statudol yn gwella strwythur cynlluniau, yn cryfhau goruchwyliaeth, ac yn sicrhau bod safonau sylfaenol yn cael eu bodloni. Ystyriwyd bod defnydd cyson yn ffordd o leihau dryswch i deuluoedd a phlant, ac yn cefnogi canlyniadau gwell. Pwysleisiodd rhai bod angen adnoddau a staff ychwanegol i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol.

Mynegodd nifer fach o ymatebwyr bryderon, gan gynnwys hyd a hygyrchedd y templedi, y risg o ddehongli anghyson ar draws awdurdodau, ac a ddylai Llywodraeth Cymru ragnodi'r fformat. Un awgrym oedd diweddaru canllawiau presennol yn hytrach na gorfodi defnyddio'r templed.

Ar ben hynny, mynegodd gofalwyr bryderon ynghylch y diffyg cymorth ariannol i warcheidwaid arbennig o'i gymharu â gofalwyr maeth a galwodd am ddull mwy cyson a theg o gefnogi.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn sgil cefnogaeth gref rhanddeiliaid, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu bwrw ymlaen â gwaith i sefydlu gofyniad statudol ar gyfer defnyddio templedi cynlluniau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Nod y dull hwn yw hyrwyddo mwy o gysondeb a thryloywder o ran sut mae cymorth yn cael ei gynllunio a'i ddarparu ar gyfer trefniadau gwarcheidiaeth arbennig ledled Cymru.

Bydd y fframwaith statudol yn helpu i sicrhau bod cynlluniau cymorth yn cael eu rhoi ar waith yn deg, beth bynnag fo ffiniau awdurdodau lleol, a bydd yn hyrwyddo gwell cydlyniad a pharhad i blant a gofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y templedi'n hygyrch, yn addas i'r diben, a bod adnoddau priodol i'w cefnogi.

Wrth fwrw ymlaen â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y pryderon ehangach a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys y gwahaniaeth mewn cymorth ariannol rhwng gwarcheidwaid arbennig a gofalwyr maeth. Er nad yw'r cynnig hwn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â threfniadau cyllido, bydd symud tuag at ddull cynllunio safonol yn cyfrannu at greu system gymorth fwy cydlynol a theg i bob teulu sy'n ymwneud â gwarcheidiaeth arbennig.

**Cwestiwn 33: A oes unrhyw anfanteision i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddefnyddio'r templedi wrth ymgymryd â chynllun cymorth gwarcheidiaeth arbennig?**

Cafwyd pymtheg ymateb i'r cwestiwn hwn. Mynegodd nifer o gyfranwyr bryderon am lai o hyblygrwydd, gan awgrymu y gallai templed statudol gyfyngu ar ddisgresiwn proffesiynol a llesteirio'r gallu i deilwra cynlluniau i sefyllfaoedd teuluol cymhleth neu unigryw. Tynnodd eraill sylw at y baich o’i roi ar waith, fel yr angen i ddiweddaru systemau, hyfforddi staff, a diwygio llif gwaith, a allai arwain at amser a chost ychwanegol.

Rhybuddiodd rhai ymatebion am y risg o ymarfer ticio blychau, lle gallai templedi annog cwblhau arwynebol yn hytrach nag ymgysylltu ystyrlon â theuluoedd. Nodwyd goblygiadau o ran adnoddau hefyd, gyda phryderon y gallai awdurdodau lleol ei chael hi'n anodd bodloni'r gofynion statudol newydd yn effeithiol heb gyllid neu staff ychwanegol.

Teimlai rhai y gallai dyletswydd o'r fath gyfyngu ar greadigrwydd neu arwain at wrthwynebiad gan ymarferwyr, yn enwedig os bydd yn cael ei gorfodi heb ddigon o ymgynghori neu gefnogaeth. Fodd bynnag, nid oedd eraill yn gweld unrhyw anfanteision sylweddol, gan awgrymu bod templedi'n hyrwyddo cysondeb, eu bod eisoes yn cael eu defnyddio mewn rhai meysydd, ac y gallent wella ansawdd ac unffurfiaeth cynlluniau cymorth.

Pwysleisiodd lleiafrif bwysigrwydd sicrhau bod y templedi'n addas i'r diben a bod modd eu haddasu i anghenion lleol, a nododd rhai y manteision posibl i ofalwyr a phlant, er gwaethaf yr heriau gweinyddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod yr amrywiaeth o safbwyntiau a rannwyd mewn ymateb i'r cynnig i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddefnyddio templedi'r cynllun cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Y bwriad wrth gyflwyno gofyniad statudol yw hyrwyddo mwy o gysondeb ac eglurder wrth ddatblygu cynlluniau cymorth ar gyfer trefniadau gwarcheidiaeth arbennig ledled Cymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddull a fabwysiedir yn ymarferol ac yn gymesur, a'i fod yn cefnogi ymgysylltu ystyrlon â theuluoedd.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y templedi'n addas i'r diben, yn gallu cael eu haddasu i amgylchiadau unigol, ac yn cael eu cefnogi gan ganllawiau priodol. Rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o weithredu unrhyw

newidiadau mewn ffordd sy'n cefnogi ymarfer proffesiynol, yn osgoi baich diangen, ac yn gwella canlyniadau i blant a'u gofalwyr.

**Cwestiwn 34: Yn eich barn chi, pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fanteision) y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer eu cael ar wahanol sefydliadau neu sectorau ym maes gofal cymdeithasol?**

Cafwyd pymtheg ymateb i'r cwestiwn hwn. Ystyrir bod gan y newidiadau arfaethedig oblygiadau cadarnhaol a heriol ar draws y sectorau gofal cymdeithasol. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at fanteision mwy o gysondeb, tegwch ac eglurder wrth gefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer trefniadau gwarcheidiaeth arbennig. Roedd templedi safonol a dyletswyddau statudol yn cael eu hystyried yn adnoddau i wella ymarfer, cludadwyedd cynlluniau, a pharhad gofal ar draws awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch effaith ariannol a gweithredol rhoi’r newidiadau ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys costau hyfforddi, diweddariadau i systemau a beichiau gweinyddol, yn enwedig i awdurdodau llai nad ydynt yn defnyddio'r templedi arfaethedig ar hyn o bryd. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau cyllid a hyblygrwydd digonol i atal y newidiadau rhag dod yn faich.

Roedd cydnabyddiaeth y gallai'r newidiadau wella atebolrwydd, gwella canlyniadau i blant a theuluoedd, a chefnogi gwell rhagolygon a chomisiynu. Ac eto, nododd nifer o ymatebwyr yr angen am ganllawiau clir gan Lywodraeth Cymru a phwysigrwydd gwrando ar leisiau gwarcheidwaid a allai ffafrio llai o gyfranogiad statudol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymatebion yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i wella canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n ymwneud â threfniadau gwarcheidiaeth arbennig.

Mae cydnabyddiaeth glir o fanteision posibl cael mwy o gysondeb, tryloywder a thegwch ledled Cymru. Ystyrir bod cyflwyno dyletswyddau statudol a thempledi safonol yn gam cadarnhaol tuag at gryfhau'r gwaith o gynllunio cymorth a sicrhau bod pob plentyn a gofalwr yn cael cymorth priodol ac amserol.

Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rhoi’r newidiadau ar waith, yn enwedig mewn perthynas â’r goblygiadau o ran adnoddau, yr anghenion hyfforddi, a’r capasiti gweinyddol. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol a sefydliadau eraill a byddwn yn ystyried y rhain yn ofalus wrth i ni symud ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gydweithio â phartneriaid i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n glir, bod cymorth ar gael, a bod lleisiau gofalwyr a theuluoedd yn cael eu hadlewyrchu drwy gydol y broses.

**Cwestiynau Eraill**

**Cwestiwn 35: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg?**

**Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- **Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**
- **Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Cafwyd tri ymateb ar ddeg i'r cwestiwn hwn. Ar y cyfan, roedd cytundeb cyffredinol nad yw'r cynigion yn debygol o gael effaith negyddol ar y Gymraeg. Pwysleisiodd sawl ymatebydd eu hymrwymiad presennol i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog, gan gynnwys defnyddio'r cynnig rhagweithiol ac sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Nododd rhai gyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg drwy ddefnyddio templedi, cynlluniau cymorth a deunyddiau recriwtio dwyieithog. Nododd rhai bwysigrwydd sicrhau nad yw prosesau cyfieithu'n achosi oedi ac y dylai dogfennau Cymraeg fod ar gael yn rhwydd. Er bod rhai'n teimlo nad oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynigion â'r Gymraeg, roedd eraill yn gweld posibilrwydd o atgyfnerthu gwasanaethau dwyieithog. Cafwyd awgrymiadau hefyd i sicrhau bod yr holl ganllawiau a thempledi ar gael yn Gymraeg er mwyn helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr adborth a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac yn croesawu'r sylwadau adeiladol a rannwyd. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Nod y cynigion yw cefnogi a chryfhau darpariaeth ddwyieithog, a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ganfod a hyrwyddo cyfleoedd sy'n gwella'r defnydd o'r Gymraeg.

**Cwestiwn 36: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y cynigion er mwyn gwneud y canlynol:**

- **cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Cafwyd tri ymateb ar ddeg i'r cwestiwn hwn. Ymysg y rhain, mynegodd nifer o ymatebwyr gefnogaeth i wella'r cynigion i hyrwyddo'r Gymraeg yn well a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys sicrhau bod yr holl dempledi a'r canllawiau statudol ar gael yn ddwyieithog, sicrhau bod paneli maethu ac adolygu yn gallu gweithredu'n Gymraeg pan ofynnir iddynt

wneud hynny, ac ymgorffori hyfedredd yn y Gymraeg mewn cofrestrau cenedlaethol i gefnogi cyfateb gwell mewn lleoliadau gofal. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at yr angen am ddeunyddiau hyfforddi dwyieithog a systemau digidol sydd wedi'u cynllunio i fod yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd cynnwys asesiadau effaith ar y Gymraeg mewn adolygiadau gweithredu. Nododd rhai ymatebwyr nad yw'r cynigion yn gwneud sylwadau ar hyn o bryd ar faterion iaith ac fe wnaethant alw am drafodaethau a chynllunio mwy gweithredol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu dymuniad i integreiddio'r Gymraeg yn gryfach i wasanaethau maethu a mabwysiadu, gan gymryd camau ymarferol i sicrhau tegwch ieithyddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r adborth a gafwyd ynghylch effaith bosibl y cynigion ar y Gymraeg. Mae'r ymatebion wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut y gellid gwella'r cynigion i gefnogi'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo tegwch ieithyddol ar draws pob agwedd ar wasanaethau maethu a mabwysiadu yng Nghymru.
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gynnal egwyddorion Safonau'r Gymraeg a sicrhau bod yr holl wasanaethau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a gafwyd fel rhan o'n gwaith parhaus o ddatblygu polisïau a chynllunio'u rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys edrych ar gyfleoedd i gryfhau darpariaeth ddwyieithog, gwella hygyrchedd ar gyfer ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg, a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwreiddio'n ystyrlon ym mhob proses a deunydd perthnasol.

**Cwestiwn 37: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.**

Cyflwynwyd pedwar ymateb ar ddeg i'r cwestiwn hwn a oedd yn gwahodd rhanddeiliaid i godi unrhyw faterion cysylltiedig nad oeddent yn cael sylw penodol mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad. Amlygodd yr adborth amrywiaeth o bryderon ac awgrymiadau ar draws gofal maethu, mabwysiadu, a gofal gan berthynas.

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i gynnwys lleisiau gwarcheidwaid arbennig wrth ddatblygu polisi, gan nodi y dylai eu profiadau bywyd lywio cynlluniau cymorth a chyfranogiad statudol yn y dyfodol. Mynegodd eraill bryderon am anghysondebau ar draws gwasanaethau plant awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig o ran cymorth ariannol i ofalwyr maeth sy'n gofalu am bobl ifanc yn eu harddegau, a oedd yn cael ei ystyried yn annigonol ac yn cyfrannu at anawsterau lleoli.

Nododd rhai ymatebwyr fod cwestiynau'r ymgynghoriad yn anodd eu deall, gan awgrymu y byddai iaith gliriach yn gwella ymgysylltiad. Roedd galw hefyd am awdurdod dirprwyedig wedi'i deilwra'n well ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau, gyda phwyslais ar gydnabod sefydlogrwydd ac unigolrwydd sefyllfa deuluol pob plentyn yn hytrach na rhoi polisïau cyffredinol ar waith.

Nodwyd bod angen rheoli'r newid i fodel nid-er-elw ym maes maethu yn ofalus er mwyn osgoi ansefydlogi lleoliadau. Roedd cyfranwyr yn argymell cael ymgyrchoedd recriwtio cynhwysol ac arferion comisiynu cydweithredol a oedd yn cynnwys asiantaethau maethu annibynnol. Cynigiwyd system genedlaethol i olrhain canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, gyda data a rennir yn cael ei fewnbynnu er mwyn deall eu teithiau a'u cynnydd yn well. Mynegwyd pryderon hefyd am y diffyg systemau ariannol effeithiol i sicrhau bod pobl ifanc a leolwyd cyn 2021 yn cael eu cynilion, gydag awgrymiadau'n canolbwyntio ar wella tryloywder a chryfhau atebolrwydd.

Tynnwyd sylw ar adnoddau digidol fel templedi ar-lein a modiwlau hyfforddi i gefnogi gweithredu, ochr yn ochr â galwadau am gyd-gynhyrchu gydag unigolion sydd â phrofiad o ofal wrth wneud diwygiadau yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn adlewyrchu’r awydd am ddulliau mwy cynhwysol, tryloyw a theg o ymdrin â pholisi ac ymarfer ar draws y system ofal.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gynnig sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r wybodaeth a rannwyd wedi bod yn werthfawr o ran tynnu sylw at feysydd nad ydynt efallai wedi cael sylw llawn yn y prif ymgynghoriad. Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth o safbwyntiau a gynigiwyd ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod profiad bywyd, heriau ymarferol, ac awgrymiadau adeiladol yn sail i ddatblygiad polisi yn y dyfodol.

Bydd yr adborth yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad wrth i ni barhau i fireinio ein dull gweithredu. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio â rhanddeiliaid ar draws y sector i sicrhau bod diwygiadau'n gynhwysol, yn dryloyw ac yn ymateb i anghenion plant, pobl ifanc a'r rheini sy'n eu cefnogi. Lle bo'n briodol, byddwn yn edrych ar gyfleoedd i gryfhau ymgysylltu, cynyddu eglurder, a chefnogi gweithredu drwy offer ymarferol ac atebion wedi'u cydgynhyrchu.

## Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn mewn ffordd sy'n gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymateb i anghenion plant, teuluoedd ac ymarferwyr. Mae'r rheoliadau a'r Codau Ymarfer i fod i gael eu gosod gerbron y Senedd ddechrau 2026.

Yn amodol ar gytundeb y Senedd, byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

Bydd yr holl ddogfennau drafft ar gael ar wefan y Senedd: Is-ddeddfwriaeth (senedd.cymru)

Bydd Llywodraeth Cymru nawr yn canolbwyntio ar roi’r cynigion ar waith drwy ganllawiau clir ac adnoddau ymarferol, gan gynnwys templedi ac adnoddau

hyfforddi, i gefnogi cysondeb ar draws gwasanaethau. Byddwn yn cryfhau'r gwaith o sicrhau ansawdd a diogelu drwy gydweithio â rhanddeiliaid ac ystyried creu gwell prosesau comisiynu a goruchwylio. Bydd ymgysylltu pellach ag awdurdodau lleol, gwasanaethau maethu a mabwysiadu, gofalwyr sy'n berthnasau, a phartneriaid yn y trydydd sector yn sicrhau bod diwygiadau'n cael eu cydgynhyrchu a'u bod yn gynaliadwy. Sefydlir mecanweithiau i fonitro effaith newidiadau a chasglu adborth gan ymarferwyr a theuluoedd.

Ein nod cyffredinol yw creu system sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n gyson ac yn deg, ac sy'n hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc ledled Cymru.

## Atodiad A: Rhestr o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad

Rhestr o'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ac a oedd yn fodlon rhannu eu manylion:

1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
2. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
4. Maethu Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
5. TGP Cymru
6. Cyngor Sir y Fflint
7. Gofalwr sy’n Berthynas
8. Gwneuthurwr Dolenni
9. Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd
10. Cymdeithas Genedlaethol y Darparwyr Gofal Maeth
11. Gofal Cymdeithasol Cymru
12. Prifysgol Abertawe
13. CASCADE
14. Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
15. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
16. Barnados Cymru
17. Y Rhwydwaith Maethu

Atebodd pum ymatebydd yn ddienw. Gwrthododd chwech roi caniatâd i rannu eu manylion.